# Cyngor Sir Ynys Môn
# Adroddiad Sgriwtini

| | |
|---|---|
| **Pwyllgor:** | Sgriwtini Corfforaethol |
| **Dyddiad:** | 18/11/2025 |
| **Pwnc:** | Adroddiad Hunanasesiad a Pherfformiad (Llesiant) 2024/25 |
| **Cadeirydd Sgriwtini:** | Cyng. Jeff Evans |

## 1. Pwy fydd yr aelod portffolio yn cyflwyno / arwain yr adroddiad?

| **Aelod Portffolio** | **Rôl** |
|---|---|
| Cyng. Robin W Williams | Dirprwy Arweinydd, Cyllid, Busnes Corfforaethol a Phrofiad y Cwsmer |
| **Swyddog Gwasanaeth (yn cefnogi)** | **Rôl** |
| Carys Edwards | Pennaeth Proffesiwn - Adnoddau Dynol a Thrawsnewid |
| Gwyndaf Parry | Rheolwr Cynllunio, Perfformiad a Rhaglen Corfforaethol |

## 2. Pam y gofynnir i'r Pwyllgor Sgriwtini ystyried y mater

Mae'n gyfrifoldeb ar y Pwyllgor, yn unol â'i Gylch Gorchwyl, i:

Bydd gwaith y Pwyllgor yn canolbwyntio ar roi sicrwydd ynglŷn â pherfformiad / darpariad yr holl wasanaethau, sicrhau bod y Cyngor yn cyflawni ei amcanion corfforaethol a'i amcanion gwasanaeth (fel yr amlinellwyd yn ei Gynllun Busnes Corfforaethol , Cyllideb Flynyddol, Fframwaith Cyllideb a Pholisi, Fframwaith Rheoli Perfformiad, Polisïau Corfforaethol neu gynlluniau a pholisïau sy'n eu holynu) ac i gefnogi a gwneud argymhellion ar gyfer gwelliant parhaol.

## 3. Rôl y Pwyllgor Sgriwtini ac argymhellion

☒Er sicrwydd
☒Er argymhelliad i'r Pwyllgor Gwaith
☐Er gwybodaeth

Argymhelliad(ion):

1. Gofynnir i'r Pwyllgor:

   1.1. Adolygu'r adroddiad ac, os yw'n berthnasol, yn gwneud argymhellion ar gyfer newidiadau i'r casgliadau neu'r camau y mae'r Cyngor yn bwriadu eu cymryd i fodloni ei ofynion perfformiad;

   1.2. os daw'r Pwyllgor i'r casgliad nad oes angen unrhyw newidiadau, dylid cymeradwyo'r adroddiad a'i argymell i'r Pwyllgor Gwaith i'r perwyl hynny.



Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg
This document is available in English

## 4. Sut mae'r argymhelliad(ion) yn cyfrannu at amcanion Cynllun y Cyngor?

Defnyddir fel rhan o'r fframwaith rheoli perfformiad i fonitro Cynllun y Cyngor a'i amcanion strategol a llesiant.

## 5. Themâu sgriwtini allweddol

Y meysydd allweddol ddylai'r Pwyllgor Sgriwtini ganolbwyntio arnynt:

1. **Cynllunio sefydliadol, rheoli pobl, rheoli ariannol a llywodraethu cadarn** – Mae'r cyngor yn adrodd lefel uchel o sicrwydd yn y meysydd hyn, gyda'r holl themâu yn dangos asesiad cryf yn gyffredinol.

    a. Pa brosesau sydd ar waith fel y gall y cyngor adeiladu ar y llwyddiannau?

    b. Pa feysydd sydd angen eu cryfhau a sut mae'r cyngor yn eu hadnabod, eu gwella a'u monitro?

2. **Cynnydd da yn erbyn Amcanion Llesiant y Cyngor a'i Dangosyddion Perfformiad Allweddol** – Mae'r cyngor yn adrodd perfformiad cadarnhaol yn erbyn ei weithgareddau a gynlluniwyd ar gyfer 2024/25 yn ogystal â pherfformiad cadarnhaol yn erbyn ei ganlyniadau hirdymor ar gyfer 2028 o dan Gynllun y Cyngor.

    a. Sut mae'r cyngor yn monitro cynnydd yn erbyn ei weithgareddau a gynlluniwyd?

    b. A yw'r cyngor yn hyderus y bydd yn cyflawni'r canlyniadau dymunol erbyn 2028?

3. **Cyfathrebu â thrigolion, busnesau a phartneriaid** –

    a. Sut y gall y cyngor wella ei gyfathrebu â'r gymuned yn dilyn canlyniadau Arolwg Cenedlaethol y Preswylwyr?

    b. Sut mae'r cyngor yn bwriadu cyfathrebu'r adroddiad cadarnhaol hwn gyda thrigolion, busnesau a phartneriaid?

## 6. Pwyntiau allweddol / crynodeb

Mae'r adroddiad hwn gan Gyngor Sir Ynys Môn ar gyfer y flwyddyn 2024/25 yn cyfuno ei Hunanasesiad a'i Adroddiad Perfformiad (Llesiant) am y tro cyntaf. Mae'n dangos canlyniad ein dull ar y cyd o gynllunio, rheoli perfformiad ac annog llesiant cenedlaethau'r dyfodol. Mae'n dangos tystiolaeth ein bod wedi:

- Cyflawni ein hamcanion strategol a blaenoriaethau allweddol

- Defnyddio ein hadnoddau yn economaidd, effeithiol ac effeithlon, a
- Rheoli a lleihau risgiau.

Mae gwaith y cyngor yn cael ei lywio gan ei weledigaeth “i greu Ynys Môn sy’n iach a llewyrchus lle gall pobl ffynnu”. Mae Cynllun y Cyngor yn nodi ein hamcanion strategol, sicrhau bod cyswllt rhwng ein blaenoriaethau a Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2021, sicrhau bod ein penderfyniadau a’n gwasanaethau’n gynaliadwy a chanolbwyntio ar wella’r canlyniadau ar gyfer y genhedlaeth hon a chenedlaethau’r dyfodol.

Mae’r adroddiad hwn yn rhoi sylw i ganlyniadau a pherfformiad y Cyngor dros y flwyddyn ddiwethaf, ac mae’n canolbwyntio ar y modd yr ydym wedi cyflawni’r hyn yr oeddem wedi bwriadu’i gyflawni. Nid yw o reidrwydd yn ystyried effaith lawn ein gwaith ar y canlyniadau i gymunedau, gan fod ffactorau ehangach sydd y tu hwnt i reolaeth uniongyrchol y Cyngor yn gallu dylanwadu ar y canlyniadau hynny.

Mae’n dangos ymrwymiad y cyngor i Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, sy’n mynnu bod cynghorau’n adolygu pa mor dda y maent yn cwrdd â’r gofynion perfformiad yn rheolaidd. Mae’r rhain yn cynnwys sicrhau bod swyddogaethau’n cael eu cyflawni’n effeithiol, sicrhau bod adnoddau’n effeithlon a chynnal llywodraethiant da. Ein nod yw adeiladu ar ein cryfderau a pharhau i wella arloesedd, tryloywder a gwasanaethau yn unol â’r fframwaith perfformiad a llywodraethiant cenedlaethol.

Mae hefyd yn amlygu’r gwaith a gwblhawyd mewn partneriaeth â’n cymunedau gwydn i gyflawni canlyniadau allweddol. Mae’r adroddiad yn rhoi trosolwg clir o’r cynnydd a wnaed yn erbyn ymrwymiadau 2024/25 a nodwyd yn y Ddogfen Cyflawni Flynyddol 2024/25, y cynnydd a wnaed yn erbyn ymrwymiadau’r Amcanion Strategol yng Nghynllun y Cyngor erbyn 2028, yn ogystal ag ein hymrwymiadau o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru). Mae’r adroddiad hwn yn gwerthuso’n cynnydd ac yn sail ar gyfer ein dyheadau ar gyfer y dyfodol.

## 7. Asesiadau effaith

7.1. Effeithiau posibl ar grwpiau gwarchodedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010

Amh.

7.2. Effeithiau posibl ar bobl sy’n dioddef anfantais economaidd-gymdeithasol (penderfyniadau strategol)

Amh.

7.3. Effeithiau posibl ar gyfleoedd i ddefnyddio’r Gymraeg a pheidio trin y Gymraeg yn llai ffafriol na’r Saesneg

Amh.

7.4. Effaith posibl ar darged Carbon Sero Net y Cyngor -

Mae'r adroddiad yn un offeryn a ddefnyddir i fonitro'r Amcan Strategol Newid Hinsawdd

## 8. Goblygiadau ariannol

| |
|---|
| Nodir sefyllfa ariannol refeniw diwedd 2024/25 yn yr adroddiad |

## 9. Atodiadau

| |
|---|
| Adroddiad Hunanasesiad a Pherfformiad (Llesiant) 2024/25 |

## 10. Awdur yr adroddiad a phapurau cefndir

| |
|---|
| Gwyndaf Parry, Rheolwr Cynllunio, Perfformiad a Rhaglen Corfforaethol<br>Alwyn Williams, Dadansoddwr Perfformiad a Busnes Corfforaethol<br>Cynllun y Cyngor 2023-2028<br>Dogfen Gyflawni Blynyddol 2024/25<br>Hunanasesiad 2023/24 |

# Adroddiad Hunanasesiad a Pherfformiad (Llesiant) 2024/25

**Paratowyd gan –** Gwasanaeth Trawsnewid

**Dyddiad cyhoeddi –** Tachwedd 2025

This document is available in English / Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg

# Cyflwyniad

Mae'r adroddiad hwn gan Gyngor Sir Ynys Môn ar gyfer y flwyddyn 2024/25 yn cyfuno ei Hunanasesiad a'i Adroddiad Perfformiad (Llesiant) am y tro cyntaf. Mae'n dangos canlyniad ein dull ar y cyd o gynllunio, rheoli perfformiad ac annog llesiant cenedlaethau'r dyfodol. Mae'n dangos tystiolaeth ein bod wedi:



- Cyflawni ein hamcanion strategol a blaenoriaethau allweddol
- Defnyddio ein hadnoddau yn economaidd, effeithiol ac effeithlon, a
- Rheoli a lleihau risgiau.

Mae gwaith y cyngor yn cael ei lywio gan ei weledigaeth "**i greu Ynys Môn sy'n iach a llewyrchus lle gall pobl ffynnu**". Mae Cynllun y Cyngor yn nodi ein hamcanion strategol, sicrhau bod cyswllt rhwng ein blaenoriaethau a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2021, sicrhau bod ein penderfyniadau a'n gwasanaethau'n gynaliadwy a chanolbwyntio ar wella'r canlyniadau ar gyfer y genhedlaeth hon a chenedlaethau'r dyfodol.

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi sylw i ganlyniadau a pherfformiad y Cyngor dros y flwyddyn ddiwethaf, ac mae'n canolbwyntio ar y modd yr ydym wedi cyflawni'r hyn yr oeddem wedi bwriadu'i gyflawni. Nid yw o reidrwydd yn ystyried effaith lawn ein gwaith ar y canlyniadau i gymunedau, gan fod ffactorau ehangach sydd y tu hwnt i reolaeth uniongyrchol y Cyngor yn gallu dylanwadu ar y canlyniadau hynny.

Mae'n dangos ymrwymiad y cyngor i Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, sy'n mynnu bod cynghorau'n adolygu pa mor dda y maent yn cwrdd â'r gofynion perfformiad yn rheolaidd. Mae'r rhain yn cynnwys sicrhau bod swyddogaethau'n cael eu cyflawni'n effeithiol, sicrhau bod adnoddau'n effeithlon a chynnal llywodraethiant da. Ein nod yw adeiladu ar ein cryfderau a pharhau i wella arloesedd, tryloywder a gwasanaethau yn unol â'r fframwaith perfformiad a llywodraethiant cenedlaethol.

Mae hefyd yn amlygu'r gwaith a gwblhawyd mewn partneriaeth â'n cymunedau gwydn i gyflawni canlyniadau allweddol. Mae'r adroddiad yn rhoi trosolwg clir o'r cynnydd a wnaed yn erbyn ymrwymiadau 2024/25 a nodwyd yn y Ddogfen Cyflawni Flynyddol 2024/25, y cynnydd a wnaed yn erbyn ymrwymiadau'r Amcanion Strategol yng Nghynllun y Cyngor erbyn 2028, yn ogystal ag ein hymrwymiadau o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru). Mae'r adroddiad hwn yn gwerthuso'n cynnydd ac yn sail ar gyfer ein dyheadau ar gyfer y dyfodol.

# Amcanion Llesiant y Cyngor

Mae’r amcanion strategol a nodir yn Cynllun y Cyngor wedi’i llunio er mwyn cefnogi’r Cyngor yn ei ddyletswydd i gwrdd â’n hamcanion llesiant er budd cenedlaethau’r presennol a hefyd chenedlaethau’r dyfodol. Ein hamcanion llesiant:

a. Mae pobl Ynys Môn yn cael eu haddysgu i gyrraedd a chyflawni eu potensial yn y tymor hir
b. Mae pobl Ynys Môn yn ddiogel, yn iach ac mor annibynnol â phosib
c. Mae pobl Ynys Môn a’i chymunedau yn mwynhau, yn gwarchod ac yn gwella eu hamgylchedd adeiledig a naturiol ar gyfer cenedlaethau’r dyfodol

Mae’r tabl isod yn dangos sut mae ein hamcanion llesiant yn cyd-fynd ag amcanion llesiant cenedlaethol Llywodraeth Cymru:

| Amcanion Llesiant y Cyngor | Amcanion Strategol y Cyngor | Llewyrchus | Cydnerth | Iachach | Mwy Cyfartal | Cymunedau Cydlynus | Diwylliant bywiog lle mae’r Gymraeg yn ffynnu | Cyfrifol ar lefel fyd-eang |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Amcan Llesiant 1 -** Mae pobl Ynys Môn yn cael eu haddysgu i gyrraedd a chyflawni eu potensial yn y tymor hir | Yr Iaith Gymraeg, Gofal Cymdeithasol a Llesiant, Addysg, Tai a’r Economi | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| **Amcan Llesiant 2 -** Mae pobl Ynys Môn yn ddiogel, yn iach ac mor annibynnol â phosib | Gofal Cymdeithasol a Llesiant, Addysg a Tai | | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | |
| **Amcan Llesiant 3 -** Mae pobl Ynys Môn a’i chymunedau yn mwynhau, yn gwarchod ac yn gwella eu hamgylchedd adeiledig a naturiol ar gyfer cenedlaethau’r dyfodol | Yr Iaith Gymraeg, Economi a Newid Hinsawdd | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |

## Cynllun y Cyngor 2023-2028 – Amcanion Strategol

Cynllun y Cyngor yw'r brif ddogfen sy'n ganolbwynt i'r penderfyniadau a wneir ar bob lefel; darparu fframwaith i gynllunio a gyrru blaenoriaethau yn eu blaen; siapio gwariant blynyddol; monitor perfformiad a chynnydd.

Wrth wraidd y cynllun mae ein dyhead i weithio gyda phreswylwyr, cymunedau a phartneriaid ar Ynys Môn i sicrhau'r gwasanaethau gorau posibl, gwella ansawdd bywyd ar gyfer pawb a chreu cyfleoedd ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Mae ei chwe phrif amcan yn adlewyrchu'r prif feysydd y dylai'r Cyngor ganolbwyntio arnynt.

**Gweledigaeth Cynllun y Cyngor yw:**

'Creu Ynys Môn sy'n iach a llewyrchus lle gall pobl ffynnu'

**Yr Iaith Gymraeg**

Cynyddu'r cyfleoedd i ddysgu, magu hyder a defnyddio'r iaith

**Gofal Cymdeithasol a Llesiant**

Rhoi'r cymorth cywir ar yr adeg gywir

**Addysg**

Sicrhau darpariaeth effeithiol ar gyfer heddiw a chenedlaethau'r dyfodol

**Tai**

Sicrhau fod gan bawb yr hawl i alw rhywle'n 'gartref'

**Economi**

Sicrhau cyfleoedd i ddatblygu economi'r ynys

**Newid Hinsawdd**

Ymateb i'r argyfwng, mynd i'r afael â newid a gweithio at fod yn sefydliad sero net erbyn 2030

# Ein Dull Hunanasesu

Cafodd y broses o fonitro perfformiad yr holl awdurdodau lleol, yn seiliedig ar hunanasesiad, ei sefydlu fel rhan o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

Mae'r cyngor yn cynnal adolygiad cynhwysfawr o'r broses hunanasesu yn flynyddol gan gynnwys nodi gwersi a ddysgwyd yn ystod y flwyddyn flaenorol yn ogystal â defnyddio adborth gan y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol, swyddogion arweiniol ac aelodau etholedig.

Yn ystod 2023, gwnaethom adolygu ein dull hunanasesu a gwneud nifer o addasiadau i gryfhau'r broses ymhellach. Gwnaethom weithio ar y cyd gyda Gwasanaethau ar draws y Cygnor i addasu'r templed er mwyn canolbwyntio ar pedwar maes allweddol, yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Y pedwar prif faes yw:

- Cynllunio Gwasanaeth a Pherfformiad
- Cynllunio Gweithlu
- Cynllunio Ariannol
- Llywodraethu; Rheoli Caffael a Chontractau ac Archwilio a Risg

Gwnaethom hefyd ganiatáu rhagor o amser fel bo Gwasanaethau'n gallu dechrau'r cyfnod casglu tystiolaeth. Fe wnaethom hefyd symud y cyfarfodydd herio gwasanaethau, a elwir yn Adolygiadau Gwasanaeth, o fis Ionawr i rhwng mis Mawrth a mis Mai er mwyn sicrhau bod data blwyddyn ariannol lawn ar gael i'w ddefnyddio. Credem fod hyn wedi cryfhau'r broses yn seiliedig ar ein profiadau o flynyddoedd blaenorol. Byddem yn parhau i adolygu ein prosesau hunanasesu bob blwyddyn a gweithredu newidiadau na chawsant eu gweithredu yn ystod 2024/25.

Mae hunanwerthuso yn rhan annatod o unrhyw broses i wella sefydliad, a hynny at ddibenion hunansicrhau; fodd bynnag, mae Cyngor Sir Ynys Môn yn cydnabod bod cwblhau hunanwerthusiadau i safon hefyd yn darparu sicrwydd i gynulleidfaoedd allanol, gan gynnwys partneriaid, rheoleiddion a thrigolion.

Gofynnwyd i bob Gwasanaeth (y mae gan Gyngor Sir Ynys Môn 9 ohonynt) i gwblhau hunanwerthusiad - gan sgorio eu perfformiad ar feysydd a nodwyd a ystyriwyd yn bwysig er mwyn mesur perfformiad cyffredinol gwasanaethau. Gofynnwyd iddynt werthuso eu

perfformiad yn erbyn maen prawf diweddaredig a restrir isod ac yna cawsant eu herio ynghylch eu canfyddiadau gan grŵp o swyddogion ac aelodau etholedig yn yr Adolygiadau Gwasanaeth:

| Cyfradd Perfformiad | Disgrifiad |
|---|---|
| Rhagorol | Perfformiad sy'n mynd tu hwnt i ddisgwyliadau'n gyson ac sy'n dangos cyfraniad rhagorol tuag at gyflawni amcanion strategol y Cyngor. |
| Mynd y tu hwnt i ddisgwyliadau | Gwasanaeth effeithiol sy'n perfformio'n dda, ac sy'n cyflawni canlyniadau rhagorol y tu hwnt i'r hyn a ddisgwylir. |
| Bodloni disgwyliadau | Perfformiad sy'n bodloni safonau sefydledig a chyflawni rhwymedigaethau statudol ac anstatudol ac sy'n ymwybodol o'r meysydd sydd angen eu gwella. |
| Angen gwelliannau | Perfformiad sy'n disgyn dan y safonau disgwyliedig ac sydd angen camau adferol gan y Gwasanaeth. |

Gofynnwyd i Wasanaethau unigol nodi meysydd i'w gwella yr oedd angen iddynt ganolbwyntio arnynt er mwyn gwella perfformiad yn y dyfodol. Mae'r meysydd i'w gwella hyn wedi'u cynnwys yn yr hunanasesiad yma, fodd bynnag mae rhai wedi'u cynnwys mewn maes ehangach i'w wella ar gyfer y Cyngor a byddant yn cael eu rheoli gan wasanaeth arweiniol sydd wedi'i nodi yn yr adran 'beth allwn ni ei wneud yn well a sut?' yn yr adroddiad hwn.

Mae meysydd i'w gwella ar gyfer gwasanaethau unigol yn cael eu monitro fel rhan o'r broses Adolygu Gwasanaeth.

Mae'r hunanasesiad hwn yn crynhoi'r gwaith a wnaed yn ystod 2024/25 yn ogystal â gwerthuso perfformiad cyffredinol y Cyngor, gan ateb y cwestiynau canlynol mor syml â phosibl:

- Sut ydyn ni'n perfformio ar hyn o bryd?
- Sut ydyn ni'n gwybod hynny?
- Beth allwn ni ei wella a sut?

Mae'r Hunanasesiad yn ffurfio rhan hanfodol o'n trefniadau rheoli perfformiad fel y gellir ei weld yn y diagram isod –




Am ragor o fanylion ar sut rydym yn monitro ac yn asesu perfformiad, ewch i https://www.ynysmon.llyw.cymru/cy/Cyngor/Perfformiad/Cynllun-y-Cyngor/Rheoli-perfformiad.aspx .

# Cynllunio Gwasanaeth a pherfformiad

Mynd y tu hwnt i ddisgwyliadau

## Sut ydyn ni'n perfformio ar hyn o bryd?

Mae cynllunio gwasanaethau yn arf hanfodol ar gyfer rheoli perfformiad. Mae'n nodi beth fydd gwasanaethau'n ei ddarparu, yn darparu trywydd clir ar gyfer cyflawni amcanion Cynllun y Cyngor, ac yn sicrhau atebolrwydd am ganlyniadau. Yna mae rheoli perfformiad yn rhoi hyn ar waith drwy alluogi'r cyngor a'i staff i gynllunio, monitro ac adolygu blaenoriaethau drwy amcanion strategol, gwasanaethol ac unigol, gan sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n effeithiol i yrru gwelliant parhaus.

Ar y cyfan, mae'r dystiolaeth yn cefnogi'r casgliad fod gan y Cyngor afael da ar Gynllunio Gwasanaeth, yn ogystal â gweledigaeth glir ar gyfer y dyfodol a sut wireddu'r weledigaeth honno. Mae gan y cyngor awydd cryf i wneud gwelliannau parhaus ac mae'n onest wrth adolygu ei ddangosyddion perfformiad allweddol, gweithgareddau blynyddol a threfniadau monitro.

## Sut ydyn ni'n gwybod hyn?

| Cryfderau a Nodwyd | Enghreifftiau o Dystiolaeth Ychwanegol |
|---|---|
| **Amcanion Clir a Dangosyddion Perfformiad Allweddol** – Mae gan y cyngor weledigaeth glir ar waith gydag amcanion mesuradwy ar gyfer darpariaeth gwasanaeth, sy'n cyd fynd ag anghenion y gymuned a gofynion deddfwriaethol. Mae gan y cyngor amcanion sydd wedi'u diffinio'n glir a DPAau mesuradwy sy'n cyd-fynd â'i flaenoriaethau strategol a'i nodau darparu gwasanaeth. | • Cynllun y Cyngor<br>• Gwerthoedd y Cyngor<br>• Cefnogi strategaethau a chynlluniau<br>• Moderneiddio cymunedau sy'n dysgu a datblygu strategaeth y Gymraeg<br>• Cod Llywodraethu Lleol – tudalennau 12-16, 20-22<br>• Cerdyn Sgorio Corfforaethol |
| **Casglu a Dadansoddi Data** – Mae'r cyngor wedi ymrwymo i wneud penderfyniadau ar sail tystiolaeth drwy fonitro data'n rheolaidd, dadansoddi data a nodi tueddiadau o'r data i wneud penderfyniadau gwybodus. Mae'r cyngor yn cymharu perfformiad â chynghorau eraill pryd bynnag y bo modd i sicrhau bod y perfformiad yn unol â'r disgwyliadau ac mae'n nodi meysydd i'w gwella. | • Monitro'r Cerdyn Sgorio Chwarterol<br>• Dangosyddion Perfformiad Gwasanaeth<br>• Dangosfyrddau PowerBI; sero net, taclo tlodi, profiad y cwsmer<br>• Stats Cymru<br>• Data Cymru<br>• Clybiau Clustnodi (data ddim wedi'i gyhoeddi)<br>• Cod Llywodraethu Lleol - tudalen 9<br>• Penderfyniadau Pwyllgor y Cyngor |

| | |
|---|---|
| | • Cofnodion Pwyllgor y Cyngor |
| **Monitro ac Adrodd Rheolaidd –** Mae'r cyngor yn sicrhau atebolrwydd a chywirdeb o ran rheoli perfformiad drwy fonitro perfformiad yn erbyn DPAau sefydledig yn rheolaidd a chyflwyno adroddiadau chwarterol ar berfformiad i aelodau etholedig ac uwch arweinwyr, swyddogion, a'r cyhoedd. | • Adroddiad Perfformiad Blynyddol<br>• Datganiad Llywodraethu Blynyddol a Chod Llywodraethu Lleol<br>• Adroddiad Blynyddol y Cyfarwyddwr ar Effeithiolrwydd y Gwasanaethau Cymdeithasol<br>• Adroddiad Blynyddol Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) Gwynedd a Môn<br>• Monitro'r Cerdyn Sgorio Chwarterol<br>• Arolwg tenantiaid a phreswylwyr (STAR) |
| **Ymgysylltu â Rhanddeiliaid –** Mae'r cyngor yn ymgysylltu'n gyson gyda thrigolion Ynys Môn, busnesau, partneriaid a staff, i gasglu adborth ar ddarpariaeth a pherfformiad gwasanaethau, gan sicrhau bod y gwasanaethau'n cwrdd ag anghenion y gymuned. | • Ymgynghoriadau cyhoeddus<br>• Arolwg tenantiaid a phreswylwyr (STAR) a chanlyniad yr arolwg<br>• Cod Llywodraethu Lleol - tudalen 9<br>• Arolwg Preswylwyr<br>• Arolwg Staff |
| **Arloesi ac Addasu –** Mae gan y cyngor enw da ar gyfer arloesi ac mae'n addasu'n dda i amgylchiadau sy'n newid. | • Porth car solar mewn meysydd parcio'r cyngor<br>• Uned Ysgol y Graig 'Fach' yn Net Sero<br>• Porthladd rhydd<br>• Rhaglen Adfywio Caergybi - Ciosg glan môr Caergybi<br>• Cymunedau Dementia Gyfeillgar<br>• Rhaglen 'Swim Safe' Môn Actif<br>• Cynllun Dialysis Gartref Ynys Môn |
| **Cydymffurfio gyda Safonau Cyfreithiol a Rheoleiddio –** mae'r cyngor yn cydymffurfio gyda deddfwriaeth berthnasol, rheoliadau a dyletswyddau statudol, ac mae'n sicrhau atebolrwydd a chywirdeb yn ei brosesau gwneud penderfyniadau | • Archwilio Allanol: Crynodeb Archwilio Blynyddol<br>• Cyfansoddiad Cyngor Sir Ynys Môn<br>• Cod Llywodraethu Lleol - tudalen 7 |
| **Diwylliant Gwelliant Parhaus** – Mae gan y cyngor ddiwylliant o welliant parhaus mewn arferion rheoli perfformiad, trwy adolygiadau a gwerthusiadau rheolaidd sy'n galluogi'r cyngor i addasu i amgylchiadau sy'n newid, nodi tueddiadau sy'n dod i'r amlwg ac ysgogi gwelliant parhaus o ran darparu gwasanaethau. | • Monitro'r Cerdyn Sgorio Chwarterol<br>• Cod Llywodraethu Lleol - tudalennau 14-16, 20-22 |

# Cynllunio Ariannol

**Mynd y tu hwnt i ddisgwyliadau**

## Sut ydyn ni'n perfformio ar hyn o bryd?

Mae cynllunio ariannol yn cynnwys rheoli arian yn strategol. Mae'n ymwneud ag asesu'r sefyllfa ariannol bresennol, cyflawni amcanion a chreu cynlluniau cynhwysfawr er mwyn dynodi adnoddau a chynnal sefydlogrwydd cyllidol. Mae'r broses hon yn cynnwys gwneud rhagolygon ariannol ar gyfer y tymor byr (hyd at 1 mlynedd), y tymor canolig (1-3 blynedd) a'r tymor hir (3+ o flynyddoedd), er mwyn sicrhau y gall y cyngor fodloni ei rwymedigaethau ariannol a darparu gwasanaeth i'r gymuned.

Mae gan y cyngor afael da ar Gynllunio Ariannol, ac mae cynllun ariannol clir ar waith er mwyn cyflawni gweledigaeth y cyngor.

## Sut ydyn ni'n gwybod hyn?

| Cryfderau a Nodwyd | Enghreifftiau o Dystiolaeth Ychwanegol |
|---|---|
| **Rheoli Cyllideb** – Mae gan y cyngor broses rheoli cyllideb gref ar waith sy'n cyd-fynd ag amcanion strategol a blaenoriaethau gwasanaeth, ac sydd hefyd yn lleihau'r risg o orwariant neu ddiffyg ariannu. | • Cyllideb a Strategaeth Ariannol Tymor Canolig<br>• Cod Llywodraethu Lleol – tudalen 20-22 |
| **Sefydlogrwydd Ariannol** – Mae gan y cyngor gronfeydd wrth gefn digidol a lefelau dyled isel perthynol â'i incwm, ac mae'n dangos arferion rheoli arian doeth sy'n sicrhau cynaliadwyedd tymor hir. | • Cyllideb a Strategaeth Ariannol Tymor Canolig<br>• Datganiad ar Gyfrifon<br>• Cod Llywodraethu Lleol – tudalen 20-22 |
| **Dyrannu Adnoddau'n Effeithiol** – Mae'r cyngor yn dyrannu ei adnoddau ariannol yn effeithiol er mwyn bodloni'r galw ar y gwasanaeth a gofynion darparu, yn ogystal â chynyddu ei werth am arian. | • Llyfr y Gyllideb<br>• Cod Llywodraethu Lleol – tudalen 14-16 |
| **Cywirdeb ac Atebolrwydd** – Mae gan y cyngor broses adrodd ar reolaeth ariannol sydd ar gael i'r cyhoedd, gan gynnwys adroddiadau monitro cyllideb yn chwarterol a datganiad ar gyfrifon blynyddol. | • Datganiad ar Gyfrifon<br>• Cod Llywodraethu Lleol – tudalen 23-24<br>• Proses Gosod Cyllideb |
| **Cydymffurfiaeth gyda Rheoliadau Ariannol** – Mae'r cyngor yn cydymffurfio'n llawn gyda rheoliadau ariannol perthnasol, safonau cyfrifo a gofynion cyfreithiol gan gynnwys cyllid craidd a chyllid grant. | • Datganiad Llywodraethu Blynyddol<br>• Cod Llywodraethu Lleol - tudalen 7 |
| **Monitro** – Mae'r cyngor yn monitro'n rheolaidd ac yn goruchwylio perfformiad ariannol, gan gynnwys adroddiad ar y gyllideb refeniw bob chwarter, y gyllideb gyfalaf a chyfrifon y Cyfrif Refeniw Tai (CRT) wrth sicrhau bod y risgiau'n cael eu rheoli'n briodol. | • Adroddiadau Monitro Ariannol Chwarterol i'r Pwyllgor Gwaith |

| | |
|---|---|
| **Asesiadau Archwilio** – Mae'r cyngor wedi derbyn adroddiadau archwilio cadarnhaol gan archwilwyr gan gynnwys Archwilio Cymru ac Archwilio Mewnol, sy'n darparu dilysiad annibynnol ar gyfer arferion rheolaeth ariannol. | • Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio<br>• Adroddiad Blynyddol Archwilio Mewnol<br>• Archwilio Allanol: Crynodeb Archwilio Blynyddol |

# Cynllunio Gweithlu

Mynd y tu hwnt i ddisgwyliadau

## Sut ydyn ni'n perfformio ar hyn o bryd?

Mae cynllunio gweithlu yn broses lle mae'r cyngor yn dadansoddi anghenion presennol ei weithlu ac anghenion y dyfodol yn erbyn ei ymrwymiadau, cynlluniau ac amcanion. Mae'n galluogi'r cyngor i benderfynu sut y bydd yn recriwtio, cefnogi, datblygu a chadw gweithwyr sydd ei angen arnom ar gyfer y dyfodol, gan fyfyrio ar egwyddor cynllunio tymor hir Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Mae gan y cyngor ddealltwriaeth gref o gynllunio gweithlu, ac mae ganddo 'r gofynion ar waith er mwyn cyflawni ei ymrwymiadau, cynllunio ac amcanion o safbwynt adnoddau dynol. Mae'r cyngor yn ymwybodol o'r swyddi sy'n fwy heriol i'w recriwtio ac mae ganddo gynlluniau ar waith i fanteisio i'r eithaf ar gyfleoedd recriwtio.

## Sut ydyn ni'n gwybod hyn?

| Cryfderau a Nodwyd | Enghreifftiau o Dystiolaeth Ychwanegol |
|---|---|
| **Hyfforddiant a Datblygu** – Mae'r cyngor yn darparu nifer o gyfleoedd i staff ymgymryd â hyfforddiant, datblygiad proffesiynol a chyfleoedd i wella sgiliau sy'n galluogi gweithwyr i ddatblygu ac addasu i ofynion gwaith sy'n parhau i newid yn ogystal â gwelliannau technegol. | • Adroddiad blynyddol yr iaith Gymraeg<br>• Cod Llywodraethu Lleol – tudalen 17-19<br>• Datblygu Aelodau a'r Rhaglen Hyfforddiant<br>• Academi Môn<br>• Cyrsiau byr i staff |
| **Cynllunio Gweithlu** – Mae'r cyngor wedi ymrwymo i gael y bobl gywir gyda'r sgiliau cywir yn y lle cywir ar yr adeg gywir, a sicrhau cydymffurfiad gydag amcanion strategol y cyngor a blaenoriaethau'r gwasanaeth. Mae'r cyngor yn parhau i ddatblygu a gweithredu cynlluniau olyniaeth i adnabod a datblygu arweinwyr y dyfodol a phersonél allweddol, fydd yn sicrhau parhad a chynaliadwyedd. | • Strategaeth Cynllunio Gweithlu<br>• Strategaeth Rheoli Risg Pobl<br>• Cod Llywodraethu Lleol – tudalen 17-19 |
| **Buddion gwaith** – Mae'r cyngor yn cynnig nifer o fuddio i staff, gan gynnwys gweithio hyblyg, gweithio hybrid, cymorth llesiant ac iechyd galwedigaethol, pensiwn gwaith a nifer o bolisïau eraill sydd wedi'u dylunio er mwyn gwella cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith ymhlith staff. | • Gweithio hyblyg (Hybrid / Opsiynnau i weithio'n hyblyg / ymddeol yn hyblyg)<br>• Cynllun beicio i'r gwaith<br>• Manteision Môn |

| | |
|---|---|
| **Adolygu perfformiad** – Mae gan y cyngor system glir ar gyfer mesur perfformiad gweithwyr, cydymffurfiaeth gyda strategaethau'r cyngor ac amcanion strategol, a datblygiad gyrfaol a hynny drwy ei drafodaethau blynyddol gyda staff, adolygiad blynyddol ar y gweithlu a rheolaeth talent effeithiol. | • System werthuso<br>• Adroddiad Blynyddol ar Ddiogelwch Corfforaethol<br>• Cod Llywodraethu Lleol – tudalen 17-19 |
| **Ymgysylltiad gyda Gweithwyr a'u Boddhad** – Mae gan y cyngor sawl ffordd o ymgysylltu gyda gweithwyr, gan gynnwys holiaduron staff a mecanweithiau adborth eraill sy'n ffordd o gyfathrebu'n effeithiol gyda staff ac yn fodd o sicrhau amgylchedd gwaith lle gall staff ffynnu a bod yn frwdfrydig. | • Presenoldeb staff<br>• Cadw staff<br>• Holiaduron staff<br>• Sesiwn Briffio Aelodau<br>• Fforwm Môn<br>• Y Ddolen<br>• Diweddariad gan y Prif Weithredwr<br>• Cod Llywodraethu Lleol – tudalen 17-19 |

# Llywodraethu: Rheoli Risg, Archwilio, Caffael a Chontractau

Mynd y tu hwnt i ddisgwyliadau

## Sut ydyn ni'n perfformio ar hyn o bryd?

Mae Rheoli Risg yn ymwneud â nodi a rheoli ansicrwydd a allai effeithio ar amcanion y cyngor mewn ffordd gadarnhaol neu negyddol. Mae Archwilio Mewnol yn cynnwys darparu sicrwydd annibynnol, gwrthrychol a gweithgareddau ymgynghori i ychwanegu gwerth a gwella gweithrediadau'r cyngor. Mae'n helpu'r cyngor i gyflawni ei amcanion drwy gyflwyno dull systematig, disgybledig o werthuso a gwella effeithiolrwydd prosesau rheoli risg, rheoli a llywodraethu. Mae archwilwyr allanol a rheoleiddwyr yn craffu ar brosesau rheoli a llywodraethu, gan sicrhau ansawdd gwasanaeth a chydymffurfiaeth â safonau cyfreithiol a rheoleiddiol. Gyda'i gilydd, maent yn cynnal atebolrwydd cynghorau ac effeithiolrwydd gwasanaethau, ac yn rhoi sicrwydd bod arian cyhoeddus yn cael ei ddefnyddio'n gyfrifol. Mae rheoli caffael yn canolbwyntio ar gaffael nwyddau neu wasanaethau am y tro cyntaf, tra bod rheoli contractau yn canolbwyntio ar reolaeth barhaus a chydymffurfiaeth y cytundebau hynny unwaith y byddant ar waith. Mae'r ddwy broses yn hanfodol i gaffael a rheoli'r adnoddau sydd eu hangen ar y cyngor i weithredu a chyflawni amcanion allweddol yn effeithlon ac yn effeithiol.

Mae'r cyngor yn monitro ac yn adolygu'r risgiau strategol a'r camau lliniaru a roddwyd ar waith yn rheolaidd i'w monitro ac mae ganddo berthynas ragorol â rheoleiddwyr ac archwilwyr. mae gan y cyngor ddealltwriaeth dda o reolau a gweithdrefnau caffael, ac mae trefniadau rheoli contract yn gweithio'n dda. Mae prosesau a gweithdrefnau cyffredinol yn gryf ac mae diwylliant y sefydliad yn sicrhau eu bod yn arferion hanfodol mewn gweithgareddau dydd i ddydd.

## Sut ydyn ni'n gwybod hyn?

| Cryfderau a Nodwydd | Enghreifftiau o Dystiolaeth Ychwanegol |
|---|---|
| **Adnabod Risgiau –** Mae gan y cyngor brosesau cadarn ar waith i nodi ac asesu risgiau ar draws pob maes gweithredu, gan gynnwys risgiau ariannol, gweithredol, strategol a chydymffurfio. | • Strategaeth Rheoli Risg<br>• Fframwaith Rheoli Risg<br>• Cofrestr Risg Strategol<br>• Cofrestr Risg Gwasanaeth<br>• Cofrestr Risg Prosiect<br>• Cod Llywodraethu Lleol - tudalen 12-24 |
| **Lliniaru Risgiau –** Mae'r cyngor yn dangos arferion rheoli risg rhagweithiol gyda'r nod o leihau tebygolrwydd ac effaith digwyddiadau andwyol trwy ddatblygu a gweithredu strategaethau a rheolaethau lliniaru risg effeithiol i fynd i'r afael â nhw. | • Strategaeth Rheoli Risg<br>• Fframwaith Rheoli Risg<br>• Cofrestr Risg Strategol<br>• Cofrestr Risg Gwasanaeth<br>• Cofrestr Risg Prosiect<br>• Cod Llywodraethu Lleol - tudalen 12-24 |

| | |
|---|---|
| **Swyddogaeth Archwilio Mewnol** – Mae gan y Cyngor dîm mewnol annibynnol a gwrthrychol sy'n rhoi sicrwydd a chyngor i bob lefel o reolwyr ac aelodau etholedig a lleyg ar ansawdd gweithrediadau o fewn y Cyngor ac mae'n un o elfennau allweddol o'r fframwaith llywodraethu'r Cyngor. Ei chenhadaeth yw gwella a diogelu gwerth sefydliadol trwy ddarparu sicrwydd, cyngor a mewnwelediad gwrthrychol sy'n seiliedig ar risg. | • Strategaeth Archwilio Mewnol<br>• Siarter Archwilio Mewnol<br>• Diweddariadau Archwilio Mewnol<br>• Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio<br>• Cod Llywodraethu Lleol - tudalen 20-24<br>• Adroddiad Blynyddol Archwilio Mewnol |
| **Archwilio Allanol a Rheoleiddwyr –** Mae'r cyngor yn onest ac yn llwyr gefnogi ei archwilwyr allanol a rheoleiddwyr ar bob agwedd ar fusnes y cyngor gan gynnwys cyllid, addysg, gwasanaethau cymdeithasol, a gweithgareddau corfforaethol eraill sydd yn eu tro yn darparu dilysiad annibynnol o'i reolaethau a'i arferion mewnol. | • Adroddiad Monitro Archwilio Allanol<br>• Archwilio Allanol: Crynodeb Archwilio Blynyddol<br>• Adroddiadau Estyn<br>• Adroddiadau Arolygiaeth Gofal Cymru |
| **Cydymffurfiaeth gyda rheoliadau a Chaffael Moesegol** – Mae'r cyngor yn cydymffurfio gyda'r holl safonau a rheoliadau caffael, ac mae pob contract yn cael eu reoli felly pan fydd angen ei adnewyddu neu pan fydd angen un newydd. Mae'r cyngor yn sicrhau bod penderfyniadau caffael yn cael eu gwneud yn ddiduedd ac er lles gorau'r cyngor a'r gymuned drwy gynnal safonau moesegol mewn prosesau caffael, gan gynnwys tegwch, uniondeb, ac osgoi gwrthdaro buddiannau. | • Canllaw Caffael<br>• Cynllun Strategol Caffael 2024 i 2029<br>• Polisi Caffael TG<br>• Cytundeb a pholisi prosesu data<br>• Datganiad Llywodraethu Blynyddol<br>• Adolygiad Caffael STAR a Chynllun Gweithredu<br>• Diogelu mewn caffael a chontractio<br>• Polisi Caffael Cynaliadwy<br>• Cod Llywodraethu Lleol - tudalen 7 |
| **Rheoli Contractau a Monitro Perfformiad –** Mae'r cyngor yn sicrhau bod cyflenwyr yn darparu nwyddau a gwasanaethau yn unol â thelerau a safonau y cytunwyd arnynt drwy fonitro perfformiad ei gyflenwyr a'i gontractwyr yn seiliedig ar DPA, Cytundebau Lefel Gwasanaeth a gofynion contract y cytunwyd arnynt. | • Strategaeth Rheoli Contractau<br>• Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio |

## Beth allwn ni ei wneud yn well a sut?

Isod, gweler y meysydd sydd wedi'u nodi fel cyfleoedd i wella a'u monitro yn ystod 2024/25.

| Materion gwella a nodwyd | Camau i fynd i'r afael â'r gwendid | Prif Swyddog / Gwasanaeth / Bwrdd | Erbyn |
|---|---|---|---|
| 1. Parhau i foderneiddio ei seilwaith digidol a seilwaith data. | • Datblygu Cynllun Strategol Data gyda'r nod o ddod yn Gyngor sy'n cael ei lywio gan ddata<br>• Parhau i symud ymlaen â'r 4 blaenoriaeth allweddol yn y Cynllun Strategol Digidol<br>• Datblygu'r rhyngwyneb 'Chatbot' i ddarparu profiad gwell i gwsmeriaid<br>• Adolygu canolfannau cyswllt cwsmeriaid ac ystyried argymhellion i wella profiad y cwsmer | Trawsnewid | Mawrth 2027 |
| 2. Rhaid i'r cyngor sicrhau ei fod yn bodloni gofynion Deddf Gaffael 2023 newydd. | • Gweithredu'r camau cytunedig o'r Cynllun Gwella Caffael | Adnoddau | Mawrth 2026 |
| 3. Mae gwydnwch ariannol y cyngor dan straen oherwydd yr argyfwng costau byw a gostyngiad mewn cyllid. | • Gwneud y defnydd gorau o'r grantiau sydd ar gael i'r cyngor<br>• Monitro ac adolygu'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig (MTFP)<br>• Adnabod arbedion ar gyfer 2026/27 ymlaen<br>• Adolygu a symleiddio prosesau er mwyn gwella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd gwasanaethau a lleihau effaith y gostyngiad mewn cyllid | Adnoddau | Mawrth 2026 |

| Materion gwella a nodwyd | Camau i fynd i'r afael â'r gwendid | Prif Swyddog / Gwasanaeth / Bwrdd | Erbyn |
|---|---|---|---|
| 4. Mae'n rhaid i'r cyngor reoli a rhesymoli asedau er mwyn sicrhau bod galw amdanynt, eu bod nhw'n addas at eu diben ac os nad ydynt yn cael eu adnabod, rhaid gweithio i wella safonau. | • Diweddaru a cyhoeddi Cynllun Rheoli Stad man-ddaliadau newydd<br>• Parhau i weithredu'r System Rheoli Cyfleusterau â Chymorth Cyfrifiadurol newydd<br>• Rhesymoli asedau'r cyngor yn unol â'r Cynllun Strategol Rheoli Asedau 2024-29 | Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo | Mawrth 2026 |
| 5. Mae'n rhaid i'r cyngor ymateb i heriau sydd wedi'u hadnabod wrth gynllunio gweithlu, gan gynnwys proffil oed mewn rhai gwasanaethau a phroblemau recriwtio a chadw staff mewn gwasanaethau eraill. | • Adolygu, diwygio a gweithredu ymgyrch recriwtio ar gyfer Busnes y Cyngor a'r Uned Ddarparu<br>• Gwasanaethau i fyfyrio a gweithio gydag Adnoddau Dynol i wneud pob ymdrech i 'dyfu staff eich hunan' trwy gyfleoedd hyfforddi a datblygu sy'n wedyn yn gwella recriwtio a chadw staff.<br>• Cynllun graddedigion Dyfodol Môn – parhau â'r rhaglen yn 25/26 - gan greu cyfleoedd deinamig i raddedigion uchelgeisiol ddatblygu sgiliau arbenigol a dechrau gyrfa gyda'r cyngor. | Trawsnewid | Mawrth 2026 |

## Datganiad Sefyllfa Allbwn Gwasanaethau'r Cyngor – 2025

Isod, sylwch ar ymateb pob gwasanaeth i'r categorïau tystiolaeth ar gyfer 2025

| Gwasanaeth | Cynllunio Gwasanaeth a Pherfformiad | Cynllunio Ariannol | Cynllunio Gweithlu | Llywodraethu; Rheoli Caffael a Chontractau ac Archwilio a Risg |
|---|---|---|---|---|
| Oedolion | Rhagorol | Mynd tu hwnt | Mynd tu hwnt | Bodloni |
| Plant a Theulueodd | Rhagorol | Mynd tu hwnt | Mynd tu hwnt | Mynd tu hwnt |
| Busnes y Cyngor | Bodloni | Angen gwelliannau | Bodloni | Bodloni |
| Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo | Bodloni | Mynd tu hwnt | Mynd tu hwnt | Bodloni |
| Tai | Mynd tu hwnt | Mynd tu hwnt | Mynd tu hwnt | Bodloni |
| Dysgu | Mynd tu hwnt | Rhagorol | Mynd tu hwnt | Mynd tu hwnt |
| Rheoleiddio a Datblygu Economaidd | Mynd tu hwnt | Rhagorol | Mynd tu hwnt | Mynd tu hwnt |
| Adnoddau | Mynd tu hwnt | Rhagorol | Meets | Mynd tu hwnt |
| Trawsnewid | Mynd tu hwnt | Mynd tu hwnt | Rhagorol | Mynd tu hwnt |
| Allbwn Cyffredinol | Mynd tu hwnt | Mynd tu hwnt | Mynd tu hwnt | Mynd tu hwnt |

## Cynnydd yn erbyn y materion gwella a nodwyd o’r hunanasesiad blaenorol

Mae’r tabl yn amlinellu’r camau gwella a nodwyd y llynedd a gellir gweld diweddariad ar y cynnydd isod.

| Materion gwella a nodwyd | Gwasanaeth / Bwrdd Arweiniol | Diweddariad ar gynnydd |
|---|---|---|
| **1. Mae’n rhaid i’r Cyngor adolygu a diwygio’r cerdyn sgorio corfforaethol ar ôl mabwysiadu Cynllun y Cyngor 2023-2028** | Trawsnewid | Dyluniwyd Cerdyn Sgorio Corfforaethol newydd ac fe’i hadroddwyd i’r Pwyllgor Gwaith a’r Pwyllgorau Sgriwtini Corfforaethol yn chwarterol. |
| **2. Parhau i foderneiddio ei seilwaith digidol a seilwaith data.** | Trawsnewid | Mae’r Cynllun Strategol Digidol bellach ar waith gyda’r nod o ddarparu cyfarwyddyd a gweledigaeth glir ynglŷn â TG gorfforaethol yn seiliedig ar egwyddorion cyffredinol a meysydd blaenoriaeth y Cyngor o ran darparu gwasanaeth TGCh.<br><br>Mae’r Cyngor wedi cyflwyno system ffôn newydd yn llwyddiannus yn y rhan fwyaf o’i swyddfeydd a safleoedd.<br><br>Cwblhawyd asesiad aeddfedrwydd data yn ystod y flwyddyn ac mae gweithgor wrthi’n gweithio ar y camau nesaf i wella’r data yn cynnwys strategaeth data newydd. |
| **3. Rhaid i’r Cyngor sicrhau ei fod yn bodloni gofynion Deddf Gaffael 2023 newydd.** | Adnoddau | Cafodd y Cynllun Caffael Strategol a’r Rheolau Gweithdrefnau Contractau diwygiedig eu cymeradwyo gan y Pwyllgor Gwaith ym mis Rhagfyr 2024. Daeth Deddf Caffael 2023 i rym ym mis Chwefror 2025.<br><br>Cynhaliwyd rhaglen hyfforddi lwyddiannus ddechrau’r flwyddyn, a derbyniodd dros 100 aelod o’r staff hyfforddiant ar y ddeddf caffael newydd a ddarparwyd yn fewnol. Mae llawlyfr caffael a thempledi hefyd ar gael.<br><br>Mae Rheolwr Caffael wedi cael ei benodi dros dro yn dilyn trafferthion recriwtio. |

| | | |
|---|---|---|
| **4. Mae gwydnwch ariannol y cyngor dan straen oherwydd yr argyfwng costau byw a gostyngiad mewn cyllid** | Adnoddau | Llwyddodd y Cyngor i sicrhau grantiau cyfalaf gwerth £47.748m yn ystod 2024/25, sy'n cyfateb i 61% o'r holl gyllid cyfalaf yn 2024/25. Cafodd y CATC ar gyfer y cyfnod 2025/26 i 2027/28 ei gymeradwyo gan y Pwyllgor Gwaith ym mis Medi 2024, ac mae cyfnod y cynllun wedi cael ei ymestyn o 2 i 3 blynedd.<br><br>Yn ystod y broses o osod y gyllideb yn gynnar yn 2025 cafodd arbedion gwasanaeth eu cynnig er mwyn ymgynghori arnynt. Bydd modd i arbedion a gafodd eu nodi ond na chafodd eu gweithredu yn 2025/26 gael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith fel rhan o'r broses o osod y gyllideb ar gyfer 2026/27.<br><br>Mae gwaith ar y gweill ar draws y gwasanaethau i ddod o hyd i ffyrdd o symleiddio prosesau er mwyn lleihau costau. Mae cronfa wrth gefn ar gyfer costau newid wedi cael ei sefydlu i ariannu unrhyw gostau'n gysylltiedig â gweithredu newidiadau. Mae enghreifftiau o'r cyllid a ddarparwyd hyd yma'n cynnwys:<br><br>1. Incwm Morwrol – i ariannu'r gost o brynu a gosod peiriannau Sglodyn a Rhif Adnabod Personol (Chip & PIN) fel y gall ymwelwyr dalu am wasanaethau â cherdyn ar y traeth.<br>2. Adolygiad Trafnidiaeth – i ariannu'r gost o gynnal adolygiad allanol o ddarpariaeth trafnidiaeth y Cyngor ar draws pob gwasanaeth, gyda'r nod o ganfod newidiadau er mwyn darparu gwasanaeth mwy cydlynol am lai o arian.<br>3. Porth Mynediad i Ddinasyddion – sy'n caniatáu i Drethdalwyr, pobl sy'n hawlio Budd-daliadau Tai a landlordiaid gael mynediad at eu cyfrifon fel y gallent dderbyn gwybodaeth am eu cyfrif a diweddaru'r Cyngor ag unrhyw newidiadau yn electronig |


| | | |
|---|---|---|
| **5. Mae'n rhaid i'r cyngor reoli a rhesymoli asedau er mwyn sicrhau bod galw amdanynt, eu bod nhw'n addas at eu diben ac os nad ydynt yn cael eu adnabod, rhaid gweithio i wella safonau.** | Priffyrdd, Gwastraff ag Eiddo | Cafodd yr holl gamau lliniaru i reoli RAAC yn adeiladu'r Cyngor eu cwblhau yn ystod y flwyddyn.<br><br>Cyhoeddwyd y Cynllun Strategol Rheoli Asedau 2024-2029 yn ystod y flwyddyn.<br><br>Cafodd System Rheoli Cyfleusterau drwy Gymorth Cyfrifiadur newydd ei mabwysiadu yn 2024 gyda'r nod o'i defnyddio i reoli asedau, gwaith cynnal a chadw a phrosiectau adeiladu'r Cyngor.<br><br>Mae gwaith ar y gweill i ddatblygu strategaeth rheoli asedau mân ddaliadau newydd a bwriedir cwblhau'r gwaith yn ystod 2025/26. |
| **6. Mae'n rhaid i'r cyngor ymateb i heriau sydd wedi'u hadnabod wrth gynllunio gweithlu, gan gynnwys proffil oed mewn rhai gwasanaethau a phroblemau recriwtio a chadw staff mewn gwasanaethau eraill.** | Trawsnewid | Mae'r Cyngor yn dal i recriwtio ar gyfer yr Uned Darparwyr. Yn ystod 2024/25 roedd y cynllun Denu Talent yn canolbwyntio ar y Gwasanaethau Oedolion, yn benodol ceisio recriwtio i swyddi sy'n anodd eu llenwi. Cymerodd pum person ifanc ran mewn profiad gwaith 10 wythnos o hyd, a phenodwyd dau i swyddi parhaol yn dilyn hynny. Adolygwyd y Strategaeth Gorfforaethol ar gyfer Rheoli Risgiau'n gysylltiedig â Phobl yn ystod y flwyddyn.<br><br>Cafodd tudalennau Gyrfaoedd newydd eu cyhoeddi ar wefan y Cyngor (Swyddi a Gyrfaoedd).<br><br>Mae pwyslais o hyd ar geisio cadw staff, yn enwedig mewn meysydd â throsiant uchel. Roedd trosiant staff yn 8% yn ystod 2024/25 o'i gymharu â 9% y flwyddyn flaenorol, ac roedd lefelau cadw staff yn tua 93% ar gyfer 24/25. |

# Adroddiad Perfformiad


## Uchafbwyntiau Perfformiad Allweddol

Gellir gweld rhai o brif uchafbwyntiau perfformiad eleni isod.

**Cynnydd mewn perthynas â'r Ddogfen Gyflawni Flynyddol**




**Canlyniadau Dangosyddion Perfformiad Allweddol 2022/23 i 2024/25**




## Cynnydd mewn perthynas ag Amcanion Llesiant y Cyngor

Mae’r tudalennau isod yn crynhoi cynnydd y Cyngor yn ystod 2024/25 tuag at gyflawni yr Amcanion Llesiant, Cynllun y Cyngor a’r amcanion tymor hir ar gyfer 2028.

Mae’r dystiolaeth fanwl a’r diweddariadau sy’n sail i’r crynodebau hyn ar gael yn Atodiad 1, lle eglurir statws CAMG a’r cynnydd yn erbyn pob cam gweithredu yn 24/25 yn llawn.

Gyda’i gilydd, mae’r adrannau hyn yn dangos sut mae’r Cyngor yn symud ymlaen o gamau gweithredu blynyddol tymor byr (ymrwymiadau 24/25) tuag at gyflawni ei amcanion hirdymor (canlyniadau erbyn 2028).

Mae’r darlun isod yn dangos sut mae’r wybodaeth yn yr adran hon yn cysylltu â’r diweddariadau manwl yn Atodiad 1, a ddangosir fel ‘24/25 ymrwymiad’ isod.



Mae pob un o'r tablau isod yn nodi:
• beth mae'r Cyngor yn gobeithio'i gyflawni **erbyn 2028** (y canlyniadau tymor hwy),
• beth yr ydym wedi **ymrwymo i'w gyflawni yn ystod 2024/25** (o'r Ddogfen Gyflawni Flynyddol ar gyfer 24/25), a
• faint o gynnydd a wnaed yn ystod y flwyddyn.

## Amcan Llesiant 1 - Mae pobl Ynys Môn yn cael eu haddysgu i gyrraedd a chyflawni eu potensial yn y tymor hir

| Amcan Strategol | Erbyn 2028 byddwn wedi: | Cynnydd Hirdymor | Yn 24/25 fe wnaethon ni ymrwymo i: | CAMG |
|---|---|---|---|---|
| **Yr Iaith Gymraeg** | Sicrhau bod ein Strategaeth Hybu'r Gymraeg yn addas er mwyn ymateb i ganlyniadau'r cyfrifiad diwethaf pan ddaw'n amser i'w hadolygu yn 2026 | Ar Amser | • Cynnal adolygiad siopwr cudd o'r ddarpariaeth iaith Gymraeg yng ngwasanaethau'r cyngor<br>• Hunanasesu ein cydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg | Gwyrdd |
| **Yr Iaith Gymraeg** | Diweddaru ein polisi iaith Gymraeg a datblygu polisi newydd ar ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle | Ar Amser | • Adolygu'r Polisi Iaith Gymraeg | Gwyrdd |
| **Yr Iaith Gymraeg** | Defnyddio rhaglenni grant i ddatblygu'r Gymraeg yn yr economi a gyda busnesau | Wedi Cwblhau | • Rhoi yr ail rhan o cynllun Arfor ar waith drwy<br>  o Ddarparu 15 Grant Cymunedau Mentrus i fusnesau<br>  o Cefnogi 30 o fusnesau i wneud mwy o ddefnydd o'r Gymraeg | Gwyrdd |
| **Yr Iaith Gymraeg** | Ehangu ein cynnig o hyfforddiant fel bod staff, cynghorwyr, partneriaid a thrigolion yr ynys yn cael mwy o gyfle i ymarfer eu sgiliau iaith Gymraeg. | Ar Amser | • Darparu cyfleoedd i staff ac aelodau etholedig fel y gallant wella eu sgiliau iaith Gymraeg drwy:<br>  o Gynnal tri dosbarth iaith Gymraeg<br>  o Cynnal ymgyrchoedd rheolaidd i annog pobl i ddefnyddio'r Gymraeg<br>  o Gweithio gyda phartneriaid i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle<br>• Hybu'r ap OgiOgi ap i annog rhieni a gwarcheidwaid i wneud mwy o ddefnydd o'r Gymraeg gyda'u plant | Gwyrdd |

| Amcan Strategol | Erbyn 2028 byddwn wedi: | Cynnydd Hirdymor | Yn 24/25 fe wnaethon ni ymrwymo i: | CAMG |
|---|---|---|---|---|
| **Addysg** | Sicrhau bod y strategaeth foderneiddio cymunedau dysgu yn creu ysgolion effeithiol gydag arweinyddiaeth gref gydag amgylchfyd addysgu pwrpasol | Ar Amser | • Darparu cyfleoedd datblygu proffesiynol ar gyfer athrawon a staff ategol yn seiliedig ar flaenoriaethau'r unigolyn a'r ysgol<br>• Gyrru'r Strategaeth Moderneiddio Cymunedau Dysgu a Datblygu'r Gymraeg yn ei blaen drwy<br>  ○ Agor yr adeilad Cyfnod Sylfaen newydd yn Ysgol y Graig<br>  ○ Ymgynghori ar ddatblygu Ysgol Uwchradd Caergybi<br>  ○ Cynnal adolygiad o'r ddarpariaeth addysg ôl-16 ar yr ynys<br>  ○ Gwella Ysgol Santes Fair; a<br>  ○ Darparu ystafelloedd cymunedol yn Ysgol Morswyn, Ysgol Llanfawr ac Ysgol y Graig | Gwyrdd |
| **Addysg** | Datblygu'r Gymraeg ar draws pob lleoliad addysgol trwy wireddu nodau, amcanion a deilliannau a osodwyd yng Nghynllun Strategol y Gymraeg mewn addysg | Ar Amser | • Trochi 96 o ddisgyblion heb lawer neu heb ddim sgiliau Cymraeg drwy'r canolfannau iaith<br>• Datblygu cynllun gwella iaith Gymraeg 5 mlynedd yn Ysgol Uwchradd Caergybi<br>• Sicrhau bod gan bob disgybl blwyddyn 6 gynllun i ddatblygu eu sgiliau iaith Gymraeg | Gwyrdd |
| **Addysg** | Sicrhau profiadau a chynnydd gorau phosib i blant a phobol ifanc trwy wireddu'r Cwricwlwm i Gymru ym mhob cymuned dysgu ar draws yr ynys | Ar Amser | • Galluogi i blant a theuluoedd gael mynediad at raglenni sy'n cynnig gweithgareddau addysgol yn y gymuned y tu allan i oriau ysgol yn cynnwys gweithgareddau gyda Môn Actif, Gogledd Cymru Actif, y gwasanaeth ieuenctid, Urdd Ynys Môn a'r Cynllun Bwyd a Hwyl a chefnogi ymgyrch Pwysau Iach Iechyd Cyhoeddus Cymru i leihau gordewdra a phroblemau iechyd cysylltiedig yn ein cymunedau<br>• Sicrhau bod cyfleoedd i blant a phobl ifanc gael eu clywed drwy | Gwyrdd |

| Amcan Strategol | Erbyn 2028 byddwn wedi: | Cynnydd Hirdymor | Yn 24/25 fe wnaethon ni ymrwymo i: | CAMG |
|---|---|---|---|---|
| | | | ○ Ddarparu cyfleodd iddynt ymateb i ymgynghoriadau cyhoeddus sy'n effeithio arnyn nhw<br>○ Trefnu i ysgolion ymweld â'r Cyngor a Siambr y Cyngor<br>○ Cynnal cyfarfodydd o'r Fforwm Plant a Phobl Ifanc a gwahodd siaradwyr gwadd; a<br>○ Sicrhau bod cynghorau ysgol yn cael cyfle i gwrdd â Llywodraethwyr ac Aelodau Etholedig Lleol ar gais<br>• Darparu cyfleodd i blant ysgol fynychu a chymryd rhan mewn gweithgareddau addysgol yn Oriel Môn ac Archifau Ynys Môn<br>• Cynyddu cyfleoedd llesiant yn ein hysgolion drwy<br>○ Gynnig cinio ysgol i 75% o ddisgyblion<br>○ Cefnogi ysgolion a disgyblion drwy'r rhaglen Ysgolion Iach a chynyddu ymwybyddiaeth o faterion iechyd meddwl | |
| **Addysg** | Cynyddu cyfleoedd addysgol ar gyfer oedolion er mwyn i drigolion Ynys Môn ddatblygu'n bersonol trwy gydol eu bywyd | Ar Amser | • Gweithio mewn partneriaeth â Chymuned Ddysgu Gwynedd a Môn i gynnig amrywiaeth o gyfleoedd dysgu i oedolion ar hyd a lled Ynys Môn | Melyn |

## Amcan Llesiant 2 - Mae pobl Ynys Môn yn ddiogel, yn iach ac mor annibynnol â phosib

| Amcan Strategol | Erbyn 2028 byddwn wedi: | Cynnydd Hirdymor | Yn 24/25 fe wnaethon ni ymrwymo i: | CAMG |
|---|---|---|---|---|
| **Gofal Cymdeithasol a Llesiant** | Adolygu a moderneiddio'r dull o ddarparu gofal a chefnogaeth | Ar Amser | • Integreiddio'r ddarpariaeth gofal dydd yn ardal Caergybi o fewn y gymuned<br>• Ymgynghori ar y Strategaeth Gofal Dydd<br>• Gweithio i leihau nifer y bobl ifanc a gadawyr gofal sydd ddim mewn Addysg, Cyflogaeth neu Hyfforddiant (NEET) ar ôl gadael yr ysgol drwy<br>  o Beilota hwb ymyrraeth gynnar yn Ysgol Syr Thomas Jones, Amlwch, i dargedu disgyblion<br>  o Sicrhau bod pob ysgol uwchradd yn dod yn ymwybodol o'r disgyblion sydd mewn perygl o beidio â bod mewn Addysg, Cyflogaeth neu Hyfforddiant yn gynharach<br>  o Targedu gadawyr gofal rhwng 18-24 oed sydd ddim mewn Addysg, Cyflogaeth neu Hyfforddiant<br>  o Dod o hyd i gyflogwyr lleol a gwasanaethau'r cyngor a all ddarparu profiad gwaith i bobl ifanc<br>• Croesawu dros 500,000 o ymweliadau i ganolfannau Môn Actif<br>• Buddsoddi £1M yng nghyfleusterau Môn Actif<br>• Gweithio gyda Medrwn Môn a defnyddio'r Gronfa Ffyniant Gyffredin (SPF) i gynnig cyfleoedd datblygu proffesiynol wedi'u teilwra, yn cynnwys hyfforddiant ystyriol o drawma i staff a'r gymuned ehangach a gweithio tuag at ddid yn Ynys sy'n Ystyriol o Drawma<br>• Moderneiddio clybiau ieuenctid ac adolygu'r ddarpariaeth i sicrhau gwelliannau yn y dyfodol | Gwyrdd |

| Amcan Strategol | Erbyn 2028 byddwn wedi: | Cynnydd Hirdymor | Yn 24/25 fe wnaethon ni ymrwymo i: | CAMG |
|---|---|---|---|---|
| **Gofal Cymdeithasol a Llesiant** | Gwella ac ehangu'r ddarpariaeth tai a chymorth | Ar Amser | • Agor cynlluniau byw â chymorth newydd yn y Fali a Rhostrehwfa<br>• Cynhyrchu rhaglen foderneiddio ar gyfer llety cymunedol<br>• Adleoli'r Gwasanaethau Arbenigol Plant o adeilad sydd newydd gael ei adnewyddu | Melyn |
| **Gofal Cymdeithasol a Llesiant** | Ehangu'r cyfleoedd i bobl allu derbyn gofal yn agosach at eu cymunedau lleol | Ar Amser | • Cynyddu cyfranogiad yn yr hybiau cymunedol integredig drwy eu gwneud yn fwy hygyrch, darparu gwasanaethau presgripsiynu cymdeithasol mewn rhai hybiau<br>• Lleoli'r gwasanaeth asesu cof (MAS) a'r gweithgareddau dementia ar y cyd yng Nghanolfan Glanhwfa, Llangefni<br>• Datblygu Rhwydwaith Oed Gyfeillgar, gan ganolbwyntio ar wyth maes y Cymunedau Oed Gyfeillgar<br>• Cynnal Fforymau Pobl Hŷn mewn lleoliadau cymunedol i sicrhau bod gweithgareddau ar gael ar hyd a lled yr ynys<br>• 400 yn cymryd rhan yn y cynllun Dementia Actif | Gwyrdd |
| **Gofal Cymdeithasol a Llesiant** | Datblygu'r ddarpariaeth fewnol ar gyfer plant mewn gofal, Cartrefi Clyd a gofalwyr maeth | Ar Amser | • Dod o hyd i eiddo ar gyfer ein 4ydd a'n 5ed Cartref Clyd ar yr ynys<br>• Darparu cyfleoedd i ofalwyr ifanc fel y gallant gymryd rhan mewn sesiynau nofio am ddim yng nghanolfannau Môn Actif<br>• Gweithio gyda 250 o bobl ifanc i wella eu hiechyd a'u lles yn cynnwys cynnal gweithgaredd i gefnogi'r ymgyrch pwysau iach | Melyn |
| **Tai** | Agor trydydd cynllun tai gofal ychwanegol a gyda chynlluniau am y pedwerydd | Ar ei hôl hi | • Sicrhau cyllid a chaniatâd cynllunio ar gyfer y datblygiad Gofal Ychwanegol yn Nhyddyn Mostyn, Porthaethwy | Melyn |

| Amcan Strategol | Erbyn 2028 byddwn wedi: | Cynnydd Hirdymor | Yn 24/25 fe wnaethon ni ymrwymo i: | CAMG |
|---|---|---|---|---|
| **Tai** | Cytuno ar y blaenoriaethau ar gyfer gweithgareddau cyfranogiad tenantiaid a dyrannu adnoddau er mwyn cynnwys llais ein tenantiaid o fewn ein gwasanaethau | Ar Amser | • Cynyddu'r gyfradd ymateb i ymholiadau yn ystod y cyswllt cyntaf boed hynny drwy ein sianeli digidol, dros y ffôn neu wyneb yn wyneb<br>• Moderneiddio a diweddaru'r system ffôn<br>• Gweithio tuag at ddiweddaru'r drysau mynediad mewn oddeutu 220 o dai a rennir yn barod ar gyfer y trosglwyddiad digidol | Gwyrdd |

## Amcan Llesiant 3 - Mae pobl Ynys Môn a'i chymunedau yn mwynhau, yn gwarchod ac yn gwella eu hamgylchedd adeiledig a naturiol ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol

| Amcan Strategol | Erbyn 2028 byddwn wedi: | Cynnydd Hirdymor | Yn 24/25 fe wnaethon ni ymrwymo i: | CAMG |
|---|---|---|---|---|
| Tai | Mynd i'r afael â'r agenda effeithlonrwydd ynni / tlodi tanwydd gan weithio tuag at wireddu Safonau Ansawdd Tai Cymru II | Ar Amser | • Paratoi Llwybr Ynni Targed ar gyfer stoc dai'r cyngor gan nodi sut y byddwn yn cwrdd â'r safonau gwres fforddiadwy a datgarboneiddio | Gwyrdd |
| **Tai** | Cynnal asesiad anghenion marchnad tai gyda phrosbectws tai blynyddol er mwyn adrodd ar gynnydd mewn cyflenwad o dai fforddiadwy | Ar Amser | • Cynnal asesiad o'r farchnad dai leol a phrosbectws tai blynyddol | Gwyrdd |
| Tai | Cynyddu'r dewis a'r nifer o dai sydd ar gael i drigolion yr ynys gan hefyd gynorthwyo aelwydydd i allu prynu eu cartrefi cyntaf | Ar Amser | • Datblygu 30 o gartrefi newydd<br>• Prynu 15 o gyn dai cyngor yn ôl<br>• Hwyluso'r gwaith o adnewyddu 60 eiddo gwag<br>• Helpu 10 prynwr tro cyntaf i brynu eu cartref cyntaf | Gwyrdd |
| Economi | Cefnogi cynlluniau cynhyrchu ynni carbon isel | Ar Amser | • Darparu cymorth a chyngor i Menter Môn ar ddatblygu Hwb yng Nghaergybi<br>• Dylanwadu ar Lywodraeth y DU, Great British Nuclear, Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid allweddol eraill a chydweithio â hwy ar ddatblygiadau ynni ar raddfa fawr | Gwyrdd |

| Amcan Strategol | Erbyn 2028 byddwn wedi: | Cynnydd Hirdymor | Yn 24/25 fe wnaethon ni ymrwymo i: | CAMG |
|---|---|---|---|---|
| Economi | Cydweithio i wireddu amcanion economi cylcho | Ar Amser | • Gweithio â Menter Môn i fuddsoddi'r £600k o gyllid grant gan Lywodraeth Cymru drwy'r Gronfa'r Economi Gylchol i sefydlu lleoliadau 'trwsio' ar yr ynys | Gwyrdd |
| Economi | Datblygu unedau busnes newydd i gynorthwyo tyfiant a datblygiad busnesau lleol | Ar Amser | • Sicrhau caniatâd cynllunio ar gyfer yr unedau busnes yn Amlwch a gweithio â phartneriaid i ddod o hyd i ragor o gyfleoedd ariannu cyfalaf<br>• Gyrru Strategaeth Canol Trefi Ynys Môn yn ei blaen drwy<br>  ○ Ymgysylltu â rhanddeiliaid ar Gynlluniau Canol Trefi unigol<br>  ○ Darparu cyllid Trawsnewid Trefi a Chreu Lleoedd i 30 o fusnesau; a<br>  ○ Sicrhau cyllid i fwy na 10 cynllun gwella eiddo | Gwyrdd |
| Economi | Manteisio ar fuddsoddiad ychwanegol er budd yr economi yn lleol | Ar Amser | • Parhau i weithredu Cynllun Adfywio Economi Gogledd Ynys Môn drwy sicrhau cyllid allanol gan yr Awdurdod Datgomisiynu Niwclear (NDA)<br>• Gweithio gyda Stena, Llywodraeth y DU a Bwrdd Uchelgais Gogledd Cymru i ddatblygu Porthladd Rhydd Ynys Môn a sicrhau cyfleodd buddsoddi ar gyfer Porthladd Caergybi, yn benodol<br>  ○ Cymeradwy'r achos busnes terfynol<br>  ○ Adfywio Porthladd Caergybi a sicrhau twf; a<br>  ○ Yr Awdurdod Iechyd Porthladd<br>• Cyflawni rhaglen Cronfa Ffyniant Bro Caergybi<br>• Sefydlu 15 prosiect ar Ynys Môn a 10 prosiect rhanbarthol gydag arian o Gronfa Ffyniant Bro Llywodraeth y DU (UKSPF)<br>• Dylanwadu ar ddatblygiadau a datblygwyr y Rhaglen Ynys Ynni | Gwyrdd |

| Amcan Strategol | Erbyn 2028 byddwn wedi: | Cynnydd Hirdymor | Yn 24/25 fe wnaethon ni ymrwymo i: | CAMG |
|---|---|---|---|---|
| **Economi** | Cynyddu a hyrwyddo'r economi ymwelwyr mewn modd parchus a chynaliadwy er mwyn sicrhau buddion i'n cymunedau ac ymwelwyr | Ar Amser | • Cwblhau'r Cynllun Rheoli Ardal o Harddech Naturiol Eithriadol (2023-2028)<br>• Croesawu 52 o longau mordeithio i'r ynys<br>• Cydweithio â Llywodraeth Cymru i wella'r gweithgareddau sydd ar gael i ymwelwyr | Gwyrdd |
| **Economi** | Ail ddatblygu safleoedd diwydiannol a thiroedd llwyd hanesyddol | Ar Amser | • Datblygu'r Rhaglen Tiroedd Llwyd a'i rhoi ar waith i ailddatblygu safleoedd diwydiannol hanesyddol yn cynnwys; safle Alwminiwm Môn, Rhosgoch, Octel (Amlwch) a Peboc, Llangefni | Melyn |
| **Newid Hinsawdd** | Lleihau ein hallyriadau carbon uniongyrchol er mwyn sicrhau bod y targed sero net 2030 o fewn cyrraedd | Ar Amser | • Adolygu'r Cynllun Tuag at Sero Net 2022-2025 a'i roi ar waith; cyhoeddi dashfwrdd i gasglu data ynglŷn ag allyriadau carbon ein hasedau mewnol a chyflwyno adroddiad i Lywodraeth Cymru ar allyriadau carbon erbyn mis Medi<br>• Gyrru'r Cynllun Trawsnewid Fflyd yn ei flaen drwy ychwanegu 13 o gerbydau carbon isel i'r fflyd (yn ddibynnol ar gyfalaf a chyllid grant)<br>• Mabwysiadu'r Cynllun Cyflawni ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol CDLl) newydd – i'w gyflwyno i'r Cyngor llawn ac yna i Lywodraeth Cymru i'w gytuno<br>• Gosod systemau gwresogi carbon isel yn naw o adeiladau'r cyngor | Gwyrdd |
| **Newid Hinsawdd** | Cynyddu cyfraddau ailgylchu | Ar ei hôl hi | • Gweithio tuag at gyflawni targed ailgylchu Llywodraeth Cymru sef ailgylchu 70% o wastraff o gartrefi ac adeiladau'r cyngor<br>• Gweithio gyda phartneriaid i yrru'r amcanion allweddol yn y Cynllun Strategol Adnoddau ac Ailgylchu yn eu blaen er mwyn gwella'r gwasanaeth casglu gwastraff ac ailgylchu | Ambr |

| Amcan Strategol | Erbyn 2028 byddwn wedi: | Cynnydd Hirdymor | Yn 24/25 fe wnaethon ni ymrwymo i: | CAMG |
|---|---|---|---|---|
| **Newid Hinsawdd** | Sicrhau bod gwasanaethau yn ystyried newid hinsawdd a bioamrywiaeth fel materion elfennol wrth gyrraedd penderfyniadau | Ar Amser | • Sicrhau bod pwyllgorau'n cael cyfle i ystyried newid hinsawdd a bioamrywiaeth wrth wneud penderfyniadau drwy ddiweddaru templedi adroddiadau<br>• Rhoi cynlluniau rheoli llifogydd ar waith ledled yr ynys (yn ddibynnol ar sicrhau cyllid gan Lywodraeth Cymru):<br>  ○ rhoi chwe chynllun bach ar waith<br>  ○ datblygu achos busnes ar gyfer pedwar cynllun ar raddfa fawr<br>  ○ datblygu achosion busnes ar gyfer pedwar cynllun ar raddfa fawr<br>• Mabwysiadu a chyhoeddi strategaeth leol ar gyfer rheoli'r perygl o lifogydd | Gwyrdd |
| **Newid Hinsawdd** | Creu opsiynau teithio carbon isel eang i drigolion ac ymwelwyr â'r ynys | Ar Amser | • Rhoi cynlluniau teithio lleol ar waith yn Amlwch ac Ynys Cybi, yn ogystal â gwella'r seilwaith rhwng Malltraeth a Llanfairpwll<br>• Penodi cyflenwr pwyntiau gwefru cerbydau trydan i osod pwyntiau gwefru ledled yr ynys (yn ddibynnol ar sicrhau cyllid grant) | Gwyrdd |

## Perfformiad Cyffredinol y Dangosyddion Perfformiad Allweddol

Roedd 82.5% o'r dangosyddion perfformiad ar y Cerdyn Sgorio Corfforaethol yn perfformio'n well neu o fewn 5% i'w targedau ar gyfer y flwyddyn.

Mae perfformiad y Cyngor o'r naill flwyddyn i'r llall yn gysylltiedig â dangosyddion cymharol (cyfanswm o 28) yn dangos bod 20 (72%) wedi gwella, 6 (21%) wedi gostwng a 2 (7%) wedi cynnal eu lefelau perfformiad.

At ei gilydd roedd 71% o'r dangosyddion a ddefnyddir i fonitro'r Amcanion Llesiant yn Wyrdd yn erbyn y targed ar gyfer y flwyddyn.

Mae'r adroddiad hwn ar y cerdyn sgorio yn amlygu rhywfaint o'r perfformiad da. Mae'r uchafbwyntiau'n cynnwys:

- 30 o fusnesau wedi derbyn cymorth i ddatblygu'r Gymraeg fel rhan o'r rhaglen ARFOR cyn iddo ddod i ben
- Dros 565,000 o ymweliadau i Ganolfannau Hamdden Ynys Môn lle cymerodd pobl ran mewn ymarfer corff yn ystod y flwyddyn, cynnydd o 50,000 o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol
- Dim ond 1.9% o ddisgyblion oedd ddim mewn cyflogaeth, addysg neu hyfforddiant (NEET) ar ôl gadael yr ysgol yn 2024, gwelliant o'r 4% a gofnodwyd yn 2023. Roedd hyn o bosib o ganlyniad i adnabod mwy o bobl ifanc sydd mewn perygl o ddod yn NEET a gweithio'n agos â hwy i ddod o hyd i ganlyniadau llwyddiannus
- Roedd 86% o denantiaid yn fodlon â'r gwaith atgyweirio ymatebol a gwblhawyd yn eu heiddo yn ystod y flwyddyn, cynnydd o 80% o'i gymharu â 2023/24
- Mae bron i 98% o geisiadau cynllunio yn cael eu penderfynu ar amser erbyn hyn
- Roedd pob categori yn ymwneud â ffyrdd yn uwch na'r targed gyda 1.8% o Ffyrdd A mewn cyflwr gwael, 1.6% o Ffyrdd B mewn cyflwr gwael a 7.3% o Ffyrdd C mewn cyflwr gwael

Mae'r adroddiad hefyd yn amlygu saith maes sy'n tanberfformio yn erbyn y targedau a osodwyd. Mae'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a'r Pwyllgor Gwaith wedi trafod y meysydd hyn a bydd y Tîm Arweinyddiaeth yn arwain a monitro gwelliant. Mae'r dangosyddion yn cynnwys:

1. Nifer y plant a gymerodd ran yng ngwersi nofio Môn Actif yn ystod y flwyddyn ar gyfartaledd
2. Nifer y dyddiau calendr a gymerwyd ar gyfartaledd i osod unedau llety sy'n rhai y mae modd eu gosod (ac eithrio eiddo anodd eu gosod)
3. Nifer y dyddiau calendr a gymerwyd ar gyfartaledd i ddarparu Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl bach neu ganolig
4. Nifer y dyddiau calendr a gymerwyd ar gyfartaledd i ddarparu Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl sylweddol
5. Cyfanswm y cwsmeriaid sydd â chytundeb angori blynyddol
6. Canran y gwastraff domestig a gafodd ei ailddefnyddio, ailgylchu neu gompostio
7. Canran y ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth a dderbyniodd ymateb o fewn yr amserlen

Ceir rhagor o wybodaeth, yn cynnwys yr holl ddangosyddion, yn y fan yma: Cerdyn Sgorio Ch4 2024/25.

## Arolwg Cenedlaethol Preswylwyr 2024

**Trosolwg**

Cymerodd y Cyngor ran yn *Arolwg Cenedlaethol Preswylwyr 2024*, a gydlynwyd gan Ddata Cymru, i ddeall yn well farn trigolion am wasanaethau lleol, ansawdd bywyd a lles ar draws Ynys Môn.

Cymerodd cyfanswm o 1,737 o drigolion ran, gan ddarparu adborth gwerthfawr sy'n helpu'r Cyngor i fesur cynnydd a llunio blaenoriaethau yn y dyfodol.

**Beth ddywedodd trigolion wrthym**

Mae'r canlyniadau'n dangos bod y rhan fwyaf o bobl yn teimlo'n bositif am fyw ar Ynys Môn:

- 67% yn fodlon gyda'r ynys fel lle i fyw
- 85% yn argymell Ynys Môn fel lle i fyw
- 86% yn teimlo'n ddiogel yn ystod y dydd, a 65% yn teimlo'n ddiogel ar ôl tywyllwch
- 78% yn rhoi gradd da i ansawdd aer lleol
- 52% yn credu bod y Cyngor yn darparu gwasanaethau o ansawdd uchel
- 41% yn credu bod y Cyngor yn cynnig gwerth am arian
- 32% yn dweud eu bod yn ymddiried yn y Cyngor

**Camau Nesaf**

Bydd yr adborth yn cael ei ddefnyddio i helpu'r Cyngor i gryfhau'r ffordd y mae'n cyfathrebu ac yn ymgysylltu â thrigolion, gwella dealltwriaeth o flaenoriaethau lleol, a pharhau i ganolbwyntio ar ddarparu gwasanaethau hygyrch o ansawdd uchel.

Mae'r mewnwelediadau hyn hefyd yn darparu meincnod pwysig ar gyfer tracio newidiadau am farn y cyhoedd dros amser, gan helpu'r Cyngor i fesur effaith ei waith a'i raglenni gwella.

## Arolwg Staff 2024/25

**Trosolwg**
Yn ystod 2024/25, cynhaliodd y Cyngor Arolwg Staff er mwyn deall yn well safbwyntiau a phrofiadau staff o weithio i'r cyngor. Archwiliodd yr arolwg themâu megis arweinyddiaeth, cyfathrebu, diwylliant sefydliadol, lles, ac ymwybyddiaeth o flaenoriaethau'r Cyngor. Mae'r adborth a gafwyd wedi darparu mewnwelediad gwerthfawr i'r hyn sy'n gweithio'n dda a'r meysydd lle gellir gwneud gwelliannau.

**Beth ddywedodd staff wrthym**
Cafwyd **429 o ymatebion**, sy'n cynrychioli **cyfradd ymateb o 28%**. Grwpiwyd y cwestiynau yn yr arolwg yn 12 thema, pob un yn cynnwys nifer o ddatganiadau yn archwilio profiadau staff, eu hymgysylltiad a diwylliant y gweithle.

Yn gyffredinol, tynnodd yr arolwg sylw at ymdeimlad cryf o falchder ac ymrwymiad ymhlith staff, ynghyd â safbwyntiau cadarnhaol ar waith tîm ac ymwybyddiaeth o gyfeiriad y Cyngor. Nododd hefyd feysydd i'w gwella ymhellach, gan gynnwys sut mae'r Cyngor yn cyfathrebu ar draws y sefydliad a sut y mae'n parhau i gefnogi llesiant a datblygiad yn y gweithle.

| Themâu | % positif |
|---|---|
| Balchder | 80% |
| Arweinyddiaeth Cyngor | 63% |
| Tîm Arweinyddiaeth | 64% |
| Arweinyddiaeth Gwasanaeth | 79% |
| Cynllun y Cyngor | 63% |
| Datblygiad Sgiliau | 74% |


| Themâu | % positif |
|---|---|
| Newid | 54% |
| Cydweithio Partneriaethol | 60% |
| Gofal Cwsmer | 70% |
| Llesiant Staff | 71% |
| Cyfathrebu | 73% |
| Bodlonrwydd Cyffredinol | 85% |

**Camau Nesaf**

Rhannwyd y canlyniadau gyda'r uwch arweinwyr a'r Pwyllgor Gwaith, a byddant yn sail i *Gynllun Gweithredu Arolwg Staff*.
Bydd y cynllun hwn yn canolbwyntio ar gynnal y meysydd cryf a nodwyd ac ar ymdrin â'r meysydd lle mae staff yn teimlo y gellir gwneud mwy o gynnydd.
Drwy weithredu ar yr adborth hwn, nod y Cyngor yw cryfhau ei ddiwylliant, gwella cyfathrebu mewnol, a sicrhau bod staff yn teimlo'n werthfawr ac yn cael eu cefnogi i ddarparu gwasanaethau allweddol i drigolion.

## Alldro Refeniw Ariannol 2024/25

Mae'r alldro refeniw ar gyfer pob Gwasanaeth, ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2025, yn cynnwys y Cyfrif Refeniw Tai (CRT), i'w weld yn y siart isod:




Ceir rhagor o wybodaeth yn yr Alldro Refeniw ar gyfer 24/25 a'r CRT

## Atodiad 1 – Diweddariadau manwl ar y gwaith a gyflawnwyd yn 2024/25

Mae system CAMG (Coch, Ambr, Melyn, Gwyrdd) wedi'i dylunio i grynhoi perfformiad -

| CAMG | Disgrifiad |
|---|---|
| **Gwyrdd** | Mae mwyafrif (90%+) y gwaith wedi cael ei gwblhau gyda ychydig iawn o eithriadau i'w cwblhau yn y flwyddyn ganlynol |
| **Melyn** | 70% i 90% o'r gwaith wedi'i gwblhau gyda'r gwaith sy'n weddill wedi'i drefnu i'w gyflawni yn y flwyddyn ganlynol |
| **Amber** | 50% i 70% o'r gwaith wedi'i gwblhau gyda'r gwaith sy'n weddill wedi'i drefnu i'w gyflawni yn y flwyddyn ganlynol neu rywfaint o'r gwaith wedi'i oedi |
| Coch | Mae llai na 50% o'r gwaith wedi cael ei gwblhau, neu nid yw'r gwaith wedi cael ei wneud |

### Amcan Llesiant 1 - Mae pobl Ynys Môn yn cael eu haddysgu i gyrraedd a chyflawni eu potensial yn y tymor hir

| Amcan Strategol | Yn 24/25 fe wnaethon ni ymrwymo i: | Diweddariad | Statws |
|---|---|---|---|
| Yr Iaith Gymraeg | Cynnal adolygiad siopwr cudd o'r ddarpariaeth iaith Gymraeg yng ngwasanaethau'r cyngor | Yn ystod y flwyddyn cynhaliwyd ymarfer siopwr cudd o wasanaethau ffôn y Cyngor a'r ddarpariaeth iaith Gymraeg yn benodol. | Gwyrdd |
| Yr Iaith Gymraeg | Hunanasesu ein cydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg | Cynhaliwyd hunan-asesiad yn ystod y flwyddyn. Mae'r canlyniadau ar gael yn yr Adroddiad Blynyddol ar y Gymraeg | Gwyrdd |
| **Yr Iaith Gymraeg** | Adolygu'r Polisi Iaith Gymraeg | Cafodd Polisi Iaith Gymraeg diwygiedig ei gymeradwyo gan y Cyngor Llawn ym mis Mawrth 2025 | Gwyrdd |
| **Yr Iaith Gymraeg** | Rhoi y cynllun Arfor ar waith drwy<br>• Ddarparu Grantiau Cymunedau Mentrus fusnesau<br>• Cefnogi 30 o fusnesau i wneud mwy o ddefnydd o'r Gymraeg<br>• Sicrhau bod Ynys Môn yn elwa o gynlluniau rhanbarthol | Mae'r £1m o arian grant a dderbyniodd fusnesau ar Ynys Môn i ddatblygu'r economi a'r Gymraeg wedi cael ei wario'n llawn erbyn hyn. Roedd y gronfa'n ariannu hyd at 70% o gost prosiectau, o £6,000 hyd at £75,000, yn cynnwys costau cyfalaf, staffio, hyfforddiant ac offer.<br><br>Ceir rhagor o wybodaeth am y rhaglen Arfor 2, yn cynnwys y Gronfa Cymunedau Mentrus, a rhaglenni eraill a reolir gan y cyngor yn y fan yma. | Gwyrdd |

| Amcan Strategol | Yn 24/25 fe wnaethon ni ymrwymo i: | Diweddariad | Statws |
|---|---|---|---|
| **Yr Iaith Gymraeg** | Darparu cyfleoedd i staff ac aelodau etholedig fel y gallant wella eu sgiliau iaith Gymraeg drwy:<br>a) Gynnal tri dosbarth iaith Gymraeg<br>b) Cynnal ymgyrchoedd rheolaidd i annog pobl i ddefnyddio'r Gymraeg<br>c) Gweithio gyda phartneriaid i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle | Yn ystod y flwyddyn mae'r cyngor wedi darparu nifer o gyfleoedd i staff ac aelodau etholedig wella eu sgiliau iaith Gymraeg.<br>a) Pum dosbarth Cymraeg ers mis Medi 2024; dosbarthiadau lefel mynediad, sylfaen a chanolradd wythnosol, cwrs magu hyder 10 wythnos a chwrs datblygu sgiliau iaith 10 wythnos.<br>b) Ymgyrchoedd yn ystod y flwyddyn yn cynnwys;<br>• boreau coffi gyda dysgwyr a'u rheolwyr llinell,<br>• rhannu her Gymraeg y mis i staff dros ebost,<br>• derbyn cydnabyddiaeth gan Gomisiynydd y Gymraeg ar arferion y cyngor yn ystod dau ddigwyddiad hybu.<br>c) Gweithgareddau ar y cyd fel rhan o is-grŵp y Gymraeg Bwrdd Gwasanaethau Lleol Gwynedd a Môn i gwblhau ymchwil ar arferion recriwtio. Mae swyddogion hefyd wedi bod yn rhan o is-grwpiau Fforwm Iaith Gymraeg Ynys Môn sydd wedi bod yn gweithio â gweithleoedd a darparwyr addysg. | Gwyrdd |
| **Yr Iaith Gymraeg** | Hybu'r ap OgiOgi ap i annog rhieni a gwarcheidwaid i wneud mwy o ddefnydd o'r Gymraeg gyda'u plant | Cafodd yr ap OgiOgi ei hyrwyddo'n llwyddiannus yn ystod y flwyddyn gyda help yr hwylusydd rhan amser a benodwyd gyda nawdd a dderbyniwyd drwy'r rhaglen ARFOR tan fis Mawrth 2025. Rydym wedi ymweld â 51 grŵp rhiant a phlentyn, a siarad â 379 o rieni. O ganlyniad mae nifer y lawr lwythiadau wedi cynyddu. | Gwyrdd |
| **Addysg** | Darparu cyfleoedd datblygu proffesiynol ar gyfer athrawon a staff ategol yn seiliedig ar flaenoriaethau'r unigolyn a'r ysgol | Darparwyd rhaglen gyffredinol ar gyfer ysgolion yn ystod y flwyddyn. Mae staff ysgol yn cael cyfle i ddatblygu. Darparwyd cyfleoedd hyfforddi yn ystod diwrnodau hyfforddiant mewn swydd ar gyfer staff ysgol. | Gwyrdd |

| Amcan Strategol | Yn 24/25 fe wnaethon ni ymrwymo i: | Diweddariad | Statws |
|---|---|---|---|
| **Addysg** | Gyrru'r Strategaeth Moderneiddio Cymunedau Dysgu a Datblygu'r Gymraeg yn ei blaen drwy<br>• Agor yr adeilad Cyfnod Sylfaen newydd yn Ysgol y Graig<br>• Ymgynghori ar ddatblygu Ysgol Uwchradd Caergybi<br>• Cynnal adolygiad o'r ddarpariaeth addysg ôl-16 ar yr ynys<br>• Gwella Ysgol Santes Fair; a<br>• Darparu ystafelloedd cymunedol yn Ysgol Morswyn, Ysgol Llanfawr ac Ysgol y Graig | Agorwyd uned 'fach' newydd Ysgol y Graig ym mis Medi 2024. Pan fydd yn weithredol bydd yr uned yn adeilad carbon sero net.<br><br>Trefnwyd ymgynghoriad ar ddyfodol Ysgol Uwchradd Caergybi yn ystod 2024/25 ac fe'i cynhaliwyd yn gynnar yn 2025/26. Bydd y safle newydd a'r datblygiad yn cael ei drafod gan y Pwyllgor Gwaith yn hwyrach yn 2025/26.<br><br>Cynhaliwyd digwyddiad ymgysylltu ar adolygu'r ddarpariaeth addysg ôl-16 rhwng mis Ionawr a Mawrth 2025. Mae'r Pwyllgor Gwaith wedi trafod a phenderfynu i ddatblygu perthynas waith agosach rhwng y darparwyr presennol a pharatoi cynllun strategol ar sut i gyflawni hyn yn ei gyfarfod ym mis Mai 2025.<br>Mae ystafelloedd cymunedol Ysgol y Graig, Ysgol Llanfawr ac Ysgol Morswyn wedi cael eu cwblhau. | Gwyrdd |
| **Addysg** | Trochi 96 o ddisgyblion heb lawer neu heb ddim sgiliau Cymraeg drwy'r canolfannau iaith | Cafodd 96 o ddisgyblion eu trochi, a chafodd 30 disgybl gymorth uniongyrchol yng nghanolfan iaith Ysgol Uwchradd Caergybi. | Gwyrdd |
| **Addysg** | Datblygu cynllun gwella iaith Gymraeg 5 mlynedd yn Ysgol Uwchradd Caergybi | Mae Grŵp Prosiect Ysgol Uwchradd Caergybi wedi adrodd bod y cynnydd yn ôl y disgwyl a bod nifer o weithgareddau positif ar waith.<br><br>Derbyniodd 4 athro gymorth Iaith drwy gydweithio â'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol.<br><br>Derbyniodd 20 aelod o'r staff hyfforddiant drwy Sgil Iaith i'w galluogi i ddysgu'n ddwyieithog. | Gwyrdd |

| Amcan Strategol | Yn 24/25 fe wnaethon ni ymrwymo i: | Diweddariad | Statws |
|---|---|---|---|
| **Addysg** | Sicrhau bod gan bob disgybl blwyddyn 6 gynllun i ddatblygu eu sgiliau iaith Gymraeg | Mae gan bob disgybl ym mlwyddyn 6 gynllun i ddatblygu eu sgiliau iaith Gymraeg. Hefyd, mae'r Ganolfan Iaith Gymraeg wedi lansio gwefan newydd i gefnog i rhieni ac athrawon. Mae siarter iaith Gymraeg ar waith ym mhob ysgol.<br><br>Mae pob dalgylch yn cydweithio ar y cynllun grant iaith Gymraeg i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg y tu allan i'r ystafell ddosbarth. | Gwyrdd |
| **Addysg** | Galluogi i blant a theuluoedd gael mynediad at raglenni sy'n cynnig gweithgareddau addysgol yn y gymuned y tu allan i oriau ysgol yn cynnwys gweithgareddau gyda Môn Actif, Gogledd Cymru Actif, y gwasanaeth ieuenctid, Urdd Ynys Môn a'r Cynllun Bwyd a Hwyl a chefnogi ymgyrch Pwysau Iach Iechyd Cyhoeddus Cymru i leihau gordewdra a phroblemau iechyd cysylltiedig yn ein cymunedau | Mae MônActif a PIPYN wedi cydweithio i sicrhau bod gan bob plentyn cyn oed ysgol bwysau iach. Mae 11 ysgol gynradd wedi ymrwymo i gymryd rhan yn holiadur y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion (SHRN). Mae'r ysgolion yn codi ymwybyddiaeth pan fydd ymgynghoriadau'n cael eu cynnal fel y gall disgyblion ddarparu adborth.<br><br>Mae Chartwells, sy'n darparu prydau ysgol ar Ynys Môn ar hyn o bryd, yn ymweld ag ysgolion drwy gydol y flwyddyn i gael adborth gwerthfawr gan blant ar eu bwydlenni cinio. | Gwyrdd |
| **Addysg** | Sicrhau bod cyfleoedd i blant a phobl ifanc gael eu clywed drwy<br>• Ddarparu cyfleodd iddynt ymateb i ymgynghoriadau cyhoeddus sy'n effeithio arnyn nhw<br>• Trefnu i ysgolion ymweld â'r Cyngor a Siambr y Cyngor<br>• Cynnal cyfarfodydd o'r Fforwm Plant a Phobl Ifanc a gwahodd siaradwyr gwadd; a | Cynhaliwyd nifer o fforymau plant a phobl ifanc yn siambr y cyngor yn Llangefni yn ystod y flwyddyn. Mae cynrychiolwyr o ysgolion cynradd ac uwchradd yn mynychu'r fforymau i ddysgu a chydweithio i ymateb ar ran y plant a'r bobl ifanc.<br><br>Ymwelodd dwy ysgol gynradd â Swyddfeydd y Cyngor am daith dywys, cwrdd â Chadeirydd y Cyngor ac uwch swyddogion yn ogystal â chymryd rhan mewn trafodaeth ynglŷn â gwaith y cyngor.<br><br>Ymwelodd cynghorwyr lleol â nifer o ysgolion fel rhan o waith maes y Panel Sgriwtini Corfforaethol. | Gwyrdd |

| Amcan Strategol | Yn 24/25 fe wnaethon ni ymrwymo i: | Diweddariad | Statws |
|---|---|---|---|
| | • Sicrhau bod cynghorau ysgol yn cael cyfle i gwrdd â Llywodraethwyr ac Aelodau Etholedig Lleol ar gais | | |
| **Addysg** | Darparu cyfleodd i blant ysgol fynychu a chymryd rhan mewn gweithgareddau addysgol yn Oriel Môn ac Archifau Ynys Môn | Ymwelodd sawl o ysgolion ag Oriel Môn a'r Archifau yn ystod y flwyddyn. Fe ymwelodd ysgolion oddi ar yr ynys ag Oriel Môn yn ogystal i gymryd rhan mewn gweithgareddau a gweld arteffactau hanesyddol a dysgu amdanynt. | Gwyrdd |
| **Addysg** | Cynyddu cyfleoedd llesiant yn ein hysgolion drwy<br>• Gynnig cinio ysgol i 75% o ddisgyblion<br>• Cefnogi ysgolion a disgyblion drwy'r rhaglen Ysgolion Iach a chynyddu ymwybyddiaeth o faterion iechyd meddwl | Mae cinio ysgol am ddim yn cael ei gynnig i bob plentyn oed cynradd ar Ynys Môn, ac mae 75% yn cymryd mantais o'r cynnig hwn ar hyn o bryd. Mae gwaith ar y gweill i gynyddu nifer y plant sy'n cymryd mantais o'r cynnig o ginio ysgol am ddim yn ogystal â'r rheiny sy'n gymwys mewn ysgolion uwchradd.<br><br>Mae'r Tîm Ysgolion Iach yn cefnogi, hyrwyddo a chwilio am grantiau i gefnogi ysgolion gyda'r elfen iechyd a llesiant.<br><br>Mae'r tîm ysgolion iach yn cefnogi'r gwaith Urddas Mislif yn y gwaith ac yn darparu nwyddau a chymorth yn y gwaith ac yn y gymuned e.e. clybiau chwaraeon.<br><br>Mae'r tîm wedi gweithio â 6 ysgol ar gynllun cymorth Iechyd a Diogelwch fel rhan o'u Cynlluniau Datblygu Ysgol. | Gwyrdd |
| **Addysg** | Gweithio mewn partneriaeth â Chymuned Ddysgu Gwynedd a Môn i gynnig amrywiaeth o gyfleoedd dysgu i oedolion ar hyd a lled Ynys Môn | Roedd dewis eang o gyrsiau ar gael ledled Gwynedd a Môn, i helpu oedolion i:<br>• Ddysgu sgiliau newydd<br>• Dychwelyd i addysg<br>• Cynyddu eu gwybodaeth am feysydd sydd o ddiddordeb iddynt | Melyn |

| Amcan Strategol | Yn 24/25 fe wnaethon ni ymrwymo i: | Diweddariad | Statws |
|---|---|---|---|
| | | • Paratoi ar gyfer cyfleoedd dysgu pellach, hyfforddiant neu gyflogaeth<br><br>Mae Cymuned Ddysgu Gwynedd a Môn yn cynnig cyfleoedd dysgu ffurfiol ac anffurfiol, o gyrsiau lefel mynediad i gymwysterau proffesiynol – pob un yn ddwyieithog lle bo modd, ac yn hygyrch i bawb.<br><br>Cynhaliwyd nifer o gyrsiau yn ystod y flwyddyn, er bod y rhaglen fymryn ar eu hôl hi oherwydd problemau gyda rhai o'r darparwyr academaidd. Bydd y gwaith yn parhau yn 2025 i helpu i gynyddu'r ddarpariaeth. | |
| **Addysg** | Mabwysiadu a dechrau defnyddio strategaeth newydd ar gyfer y Gwasanaeth Llyfrgelloedd | Mae Strategaeth y Gwasanaeth Llyfrgelloedd ar ffurf drafft o hyd. Cafodd y gwaith hwn ei ohirio yn 24/25 yn sgil y bwriad i gyhoeddi'r 7fed Fframwaith ar gyfer Llyfrgelloedd Cyhoeddus yng Nghymru. Gan fod y fframwaith hwn bellach mewn grym, mae'r gwaith ar y drafft wedi ailgychwyn. | Ambr |

## Amcan Llesiant 2 - Mae pobl Ynys Môn yn ddiogel, yn iach ac mor annibynnol â phosib

| Amcan Strategol | Yn 24/25 fe wnaethon ni ymrwymo i: | Diweddariad | Statws |
|---|---|---|---|
| Gofal Cymdeithasol a Llesiant | Integreiddio'r ddarpariaeth gofal dydd yn ardal Caergybi o fewn y gymuned | Mae'r ddarpariaeth gofal dydd yn ardal Caergybi wedi cael ei integreiddio yn y gymuned yn dilyn cau Canolfan Morswyn ym mis Medi 2024.<br><br>Mae'r tîm cymunedol wedi cynnal grwpiau yn Llyfrgell Caergybi, Canolfan Hamdden Caergybi, Hwb Cymunedol Gwelfor ac adeilad y Sgowtiaid Môr ar wahanol ddiwrnodau o'r wythnos. | Gwyrdd |
| **Gofal Cymdeithasol a Llesiant** | Ymgynghori ar y Strategaeth Gofal Dydd | Gwnaed rhywfaint o waith ar y strategaeth, fodd bynnag mae angen gwaith pellach. Bydd y gwaith hwn yn parhau yn 25/26. | Ambr |
| **Gofal Cymdeithasol a Llesiant** | Gweithio i leihau nifer y bobl ifanc a gadawyr gofal sydd ddim mewn Addysg, Cyflogaeth neu Hyfforddiant (NEET) ar ôl gadael yr ysgol drwy<br>• Beilota hwb ymyrraeth gynnar yn Ysgol Syr Thomas Jones, Amlwch, i dargedu disgyblion<br>• Sicrhau bod pob ysgol uwchradd yn dod yn ymwybodol o'r disgyblion sydd mewn perygl o beidio â bod mewn Addysg, Cyflogaeth neu Hyfforddiant yn gynharach<br>• Targedu gadawyr gofal rhwng 18-24 oed sydd ddim mewn Addysg, Cyflogaeth neu Hyfforddiant<br>• Dod o hyd i gyflogwyr lleol a gwasanaethau'r cyngor a all ddarparu profiad gwaith i bobl ifanc | Roedd lleihad yn nifer y bobl ifanc NEET yn ystod y flwyddyn, o 4% yn 2024 i 1.9% yn 2025.<br><br>Mae hwb ymyrraeth gynnar yn dal i gael ei beilota yn Ysgol Syr Thomas Jones, Amlwch a bydd y ddarpariaeth yn cael ei hadolygu yn 2026.<br><br>Mae adnodd penodol yn y 5 ysgol uwchradd ar yr ynys i dargedu dysgwyr sydd mewn perygl o ddod yn NEET.<br><br>Mae'r cyngor yn dal i weithio ar ddarparu cymorth i adawyr gofal rhwng 18-24 sydd yn NEET.<br><br>Sefydlodd y cyngor gynllun Profiad Gwaith Gwirfoddol rhwng Tachwedd ac Ionawr a oedd yn llwyddiannus. Nod y cynllun profiad gwaith gwirfoddol oedd lleihau nifer y bobl ifanc 16-18 sydd yn NEET. Mae prosiect tebyg yn cael ei ddatblygu ar gyfer 2025/26. | Gwyrdd |

| Amcan Strategol | Yn 24/25 fe wnaethon ni ymrwymo i: | Diweddariad | Statws |
|---|---|---|---|
| Gofal Cymdeithasol a Llesiant | Croesawu dros 500,000 o ymweliadau i ganolfannau Môn Actif | Croesawodd Canolfannau Hamdden Môn Actif bron i 566,000 o ymweliadau lle cymerodd bobl ran mewn gweithgareddau corfforol yn ystod y flwyddyn. | Gwyrdd |
| Gofal Cymdeithasol a Llesiant | Buddsoddi £1M yng nghyfleusterau Môn Actif | Cafodd dros £1m ei wario i uwchraddio cyfleusterau Môn Actif yn ystod y flwyddyn, a hynny drwy gyllid Cyfalaf, y gronfa SPF a Grant Cyfalaf Chwaraeon Cymru. Roedd y gwaith yn cynnwys:<br>• Gosod lloriau newydd yn y brif neuadd ym Mhlas Arthur a Chaergybi<br>• Gwella effeithlonrwydd ynni ym Mhlas Arthur drwy osod cladin a ffenestri newydd<br>• Gwella CCTV ym Mhlas Arthur<br>• Gosod goleuadau ar gaeau 3G canolfannau hamdden Amlwch a David Hughes | Gwyrdd |
| Gofal Cymdeithasol a Llesiant | Gweithio gyda Medrwn Môn a defnyddio'r Gronfa Ffyniant Gyffredin (SPF) i gynnig cyfleoedd datblygu proffesiynol wedi'u teilwra, yn cynnwys hyfforddiant ystyriol o drawma i staff a'r gymuned ehangach a gweithio tuag at ddod yn Ynys sy'n Ystyriol o Drawma | Fel rhan o'r siwrnai i ddod yn Ynys sy'n Ystyriol o Drawma, mae dros 700 o staff wedi cymryd rhan mewn ymyraethau ystyriol o drawma/dysgu proffesiynol yn cynnwys staff partneriaid statudol, trydydd sector, aelodau etholedig, sefydliadau cymunedol a gofalwyr maeth. Roedd y rhain yn amrywio o sesiynau undydd i achrediadau llawn a fydd yn helpu i gefnogi ein plant, pobl ifanc a theuluoedd. Mae'r ffigwr hwn yn dal i gynyddu o'r naill wythnos i'r llall.<br><br>Mae dros 70% o brif ofalwyr maeth y cyngor wedi cwblhau'r Diploma Ystyriol o Drawma ar gyfer Gofalwyr Maeth, y cyntaf o'i fath yng Nghymru, ac mae'r adborth gan Ofalwyr Maeth wedi bod yn bositif.<br><br>Bydd staff Heddlu Gogledd Cymru sy'n gweithio ar Ynys Môn a staff Cartref Clyd y Cyngor yn derbyn hyfforddiant yn 25/26 a bydd model Goruchwylio Ystyriol o Drawma yn cael ei ymgorffori ym mhob Cartref Clyd. | Gwyrdd |

| Amcan Strategol | Yn 24/25 fe wnaethon ni ymrwymo i: | Diweddariad | Statws |
|---|---|---|---|
| | | Mae'r Cynghorydd Dyfed Jones, yr aelod sy'n gyfrifol am y portffolio Plant, Pobl Ifanc a Theuluoedd, yn dilyn yr un trywydd â'r Cynghorydd Gary Pritchard, Arweinydd y Cyngor, ac yn cwblhau'r Diploma Ystyriol o Drawma.<br><br>Bwriedir ymweld â phob Ward ar Ynys Môn yn ystod 2025/26 er mwyn amlygu'r model Ystyriol o Drawma yn y cymunedau hynny. Y nod yw sicrhau bod y cymunedau'n creu Ynys sy'n Ystyriol o Drawma. | |
| Gofal Cymdeithasol a Llesiant | Moderneiddio clybiau ieuenctid ac adolygu'r ddarpariaeth i sicrhau gwelliannau yn y dyfodol | Ar ôl cydweithio â Choleg Llandrillo Menai, Llangefni symudwyd y clwb ieuenctid o Ganolfan Hamdden Plas Arthur i'r coleg. Mae'r safle'n adeilad modern gydag offer newydd ac mae'n rhoi blas o gampws y coleg i ddarpar fyfyrwyr. | Gwyrdd |
| Gofal Cymdeithasol a Llesiant | Agor cynlluniau byw â chymorth newydd yn y Fali a Rhostrehwfa | Llwyddodd y cyngor i ennill grant gwerth £700K drwy Gronfa Tai â Gofal Llywodraeth Cymru i brynu eiddo byw â chymorth yn Rhostrehwfa a oedd ar werth ar y farchnad agored. Mae'r gwaith adnewyddu yn mynd rhagddo.<br><br>Prynwyd eiddo arall yn ardal Gwalchmai, a fydd yn cael ei addasu dros y misoedd nesaf. Bydd y prosiect yn cael ei redeg mewn partneriaeth â'r adran dai a'i ariannu'n rhannol drwy'r Cyfrif Refeniw Tai (CRT).<br><br>Mae'r cyfleuster yn y Fali bellach ar agor. | Melyn |
| Gofal Cymdeithasol a Llesiant | Cynhyrchu rhaglen foderneiddio ar gyfer llety cymunedol | Mae gan y cyngor gynlluniau uchelgeisiol i drawsnewid a gwella opsiynau llety ar gyfer pobl ag anableddau dysgu, trwy raglen o ddatblygiadau newydd. Roedd Gwasanaethau Cymdeithasol yn gweithio ochr yn ochr â'r adran Tai a chymdeithasau tai lleol, rydym wedi gallu buddsoddi mewn sawl cynllun ac rydym yn parhau i | Melyn |

| Amcan Strategol | Yn 24/25 fe wnaethon ni ymrwymo i: | Diweddariad | Statws |
|---|---|---|---|
| | | ddatblygu cynlluniau er mwyn uwchraddio mwy o eiddo yn unol â chyfalaf y cyngor. | |
| Gofal Cymdeithasol a Llesiant | Adleoli'r Gwasanaethau Arbenigol Plant o adeilad sydd newydd gael ei adnewyddu | Mae'r gwasanaeth cymorth arbenigol i blant yn Haulfryn bron â bod yn barod ac mae rhywfaint o ddarpariaeth wedi bod ar gael yno yn ystod y flwyddyn. Ni fydd y gwasanaeth yn gwbl weithredol nes bo'r gwaith adeiladau wedi cael ei gwblhau ar yr eiddo. | Melyn |
| Gofal Cymdeithasol a Llesiant | Cynyddu cyfranogiad yn yr hybiau cymunedol integredig drwy eu gwneud yn fwy hygyrch, darparu gwasanaethau presgripsiynu cymdeithasol mewn rhai hybiau | Mae Hwb Cymunedol Canolfan Glanhwfa wedi derbyn cyfanswm o £1m o gyllid i gwblhau gwaith addasu ac adnewyddu i'w hadeilad yng Nghapel Moreia yn Llangefni.<br><br>Ers hynny, mae bobl hŷn a bregus wedi cael gwasanaethau cymunedol, gyda phartneriaid mawr Age Cymru Gwynedd a Môn, Bwyd Da Môn, Ymddiriedolaeth y Gofalwyr, Cynnal Gofalwyr ac Adferiad yn rhoi gwasanaethau allweddol. Yn ogystal, mae'r Ganolfan yn gartref i'r corau arobryn Côr Ieuenctid Môn a Chôr Encor (i bobl dros chwe deg oed), dosbarthiadau comedi stand-yp a chyrsiau cymunedol gan Grŵp Llandrillo Menai.<br><br>Daeth pobl o bob oed ynghyd mewn digwyddiad i ddathlu lansio hwb dementia wythnosol newydd yn Amlwch. Ymunodd disgyblion o Ysgol Gynradd Amlwch ag aelodau hˆyn y gymuned a gofalwyr mewn prynhawn agored a gynhaliwyd gan Môn Actif ac Ynys Môn Oed-gyfeillgar yn y Neuadd Goffa.<br><br>Bydd y ganolfan newydd, a gaiff ei redeg gan Dementia Actif Môn, yn ceisio cefnogi pobl sy'n byw gyda dementia yn ogystal â'u gofalwyr. Gall pobl sgwrsio a chymdeithasu â'i gilydd dros baned. Roedd Heddlu Gogledd Cymru, Ymddiriedolaeth y Gofalwyr, Gwasanaeth Cynnal Gofalwyr, Age Cymru Gwynedd a Môn a Thai Môn hefyd yn bresennol gyda stondinau gwybodaeth am eu gwasanaethau. | Gwyrdd |

| Amcan Strategol | Yn 24/25 fe wnaethon ni ymrwymo i: | Diweddariad | Statws |
|---|---|---|---|
| **Gofal Cymdeithasol a Llesiant** | Lleoli'r gwasanaeth asesu cof (MAS) a'r gweithgareddau dementia ar y cyd yng Nghanolfan Glanhwfa, Llangefni | Mae Hwb Cymunedol Canolfan Glanhwfa wedi derbyn cyfanswm o £1m o gyllid i gwblhau gwaith addasu ac adnewyddu i'w hadeilad yng Nghapel Moreia yn Llangefni.<br><br>Nid yw wedi bod yn bosibl symud yr holl weithgareddau i'r ganolfan eto oherwydd y gwaith adnewyddu parhaus. | Melyn |
| **Gofal Cymdeithasol a Llesiant** | Datblygu Rhwydwaith Oed Gyfeillgar, gan ganolbwyntio ar wyth maes y Cymunedau Oed Gyfeillgar | Mae datblygiad Ynys Oed-gyfeillgar yn mynd o nerth i nerth. Dros y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi gweithio mewn partneriaeth â nifer o wasanaethau a sefydliadau trydydd sector i ehangu'r gwaith hwn. Mae'r prosiect Nifty60s a datblygiad Canolfan Dementia Ynys Môn yng Nghanolfan Glanhwfa, Llangefni yn enghreifftiau o ddatblygiadau sy'n cefnogi iechyd a lles trigolion Ynys Môn.<br><br>Ymwelodd Comisiynydd Pobl H ˆyn Cymru, Rhian Bowen-Davies, ym mis Hydref 2024 i ddarganfod ein huchelgais i wneud Ynys Môn yn gymuned Oed-gyfeillgar mor ysbrydoledig. Dychwelodd am ymweliad wythnos o hyd ym mis Mawrth 2025 i drochi ei hun ymhellach yn y mentrau sydd ar gael ar Ynys Môn.<br><br>Yn ystod ei hymweliad, llwyddodd y Comisiynydd i ymweld â chymunedau ledled Ynys Môn; ymgysylltu'n uniongyrchol â thrigolion hŷn i glywed am eu profiadau a dysgu sut mae gwasanaethau a grwpiau lleol yn cefnogi pobl i fyw a heneiddio'n dda.<br><br>Cyfarfu â Swyddogion allweddol y Cyngor ac Aelodau Etholedig, cyn gweld drosto'i hun yr ystod o fentrau sydd wedi helpu i greu Ynys Môn Oed-gyfeillgar. Cymerodd Rhian Bowen-Davies ran mewn ystod o fentrau dan arweiniad y gymuned sy'n adlewyrchu ymrwymiad yr ynys i helpu pobl hˆyn i aros yn actif, bod â chysylltiadau ac yn annibynnol. | Gwyrdd |

| Amcan Strategol | Yn 24/25 fe wnaethon ni ymrwymo i: | Diweddariad | Statws |
|---|---|---|---|
| | | Ymhlith y rhain roedd dosbarth Pêl-bicl 60+ yng Nghanolfan Biwmares, y grŵp Nifty 60s yng Nghaergybi a dosbarth sgiliau TG ffyniannus yn y Benllech a gyflwynwyd gan diwtoriaid o Grŵp Llandrillo Menai. Cyfarfu hefyd ag aelodau o nifer o sefydliadau a grwpiau oed-gyfeillgar megis Mencap Môn, Caffi Siop Mechell, Grŵp Cerdded Canolfan Glanhwfa a thrigolion yn Hafan Cefni. | |
| Gofal Cymdeithasol a Llesiant | Cynnal Fforymau Pobl Hŷn mewn lleoliadau cymunedol i sicrhau bod gweithgareddau ar gael ar hyd a lled yr ynys | Ym mis Ebrill 2024, cynhaliodd Cyngor Sir Ynys Môn ac Age Cymru Gwynedd a Môn Fforwm Pobl Hŷn Ynys Gyfan yn M-Sparc; digwyddiad a ddaeth â phobl hŷn o bob cwr o'r ynys ynghyd.<br><br>Yn y Fforwm, lle'r oedd dros 70 o bobl yn bresennol, cafwyd cyflwyniadau gan sawl siaradwr gwadd diddorol. Agorwyd y digwyddiad gan Brenda Roberts, Cadeirydd Cyngor Pobl Hŷn, a chaewyd y digwyddiad gan y Cynghorydd Gwilym Jones, Hyrwyddwr Pobl Oed-gyfeillgar.<br><br>Cynhaliwyd amserlen o gyflwyniadau amrywiol, gan gynnwys Cymorth Atal Sgamiau i wefan Action Fraud i Fwletin Rhybudd Cymunedol Gogledd Cymru. Cynigiodd y Ganolfan Cyngor ar Bopeth gymorth a chyngor sydd ar gael i helpu pobl i wneud y mwyaf o'u hincwm a'u hegni. Cyfeiriodd y cyflwyniad at dariffau cymdeithasol, cymorth brys, awgrymiadau ar gadw'r tŷ'n gynnes, awgrymiadau ynghylch arbed ynni a mwy. Rhoddodd y Gwasanaeth Cynnal Gofalwyr gyflwyniad yn crynhoi beth yw Gofalwr Di-dâl a sut y gall gwasanaeth Cynnal Gofalwyr helpu.<br><br>Cawsom wybod am wahanol gynlluniau, gan gynnwys y rhaglen seibiant 'Cynllun Seibiannau Byr', cymorth gartref a chyda hawliau gofalwyr, yn ogystal â llawer o rai eraill. | |

| Amcan Strategol | Yn 24/25 fe wnaethon ni ymrwymo i: | Diweddariad | Statws |
|---|---|---|---|
| **Gofal Cymdeithasol a Llesiant** | 400 yn cymryd rhan yn y cynllun Dementia Actif | Statws Dementia-gyfeillgar i Ynys Môn - Mae Cyngor Sir Ynys Môn wedi cael ei anrhydeddu yn Gyngor Dementia-gyfeillgar cyntaf Gogledd Cymru, gan Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru.<br><br>Mae prosiect Ynys Môn Dementia-gyfeillgar yn gweithio gyda chymunedau lleol i fynd i'r afael â blaenoriaethau a nodwyd yn lleol. Ymhlith y blaenoriaethau hyn mae nodi mannau mewn cymunedau y mae angen cyfleuster neu adeilad cymunedol dementia-gyfeillgar ar eu cyfer. Mae'r prosiect yn golygu gweithio gydag amrywiol sefydliadau, busnesau, grwpiau strategaeth, sy'n gweithio ar y cyd i greu Ynys Môn Dementia-gyfeillgar.<br><br>Gweithgareddau'n dal i gael eu cynnal yn Amlwch, Caergybi, Llangoed, Llangefni, Bryngwran, a Bodorgan, a sôn am ddosbarth newydd yn Rhosneigr. | |
| **Gofal Cymdeithasol a Llesiant** | Dod o hyd i eiddo ar gyfer ein 4ydd a'n 5ed Cartref Clyd ar yr ynys | Bydd y 4ydd eiddo, sydd yn y camau cynllunio ar hyn o bryd, yn gyfleuster gofal seibiant yn ymyl Haulfryn sy'n darparu gofal seibiant i blant ag anableddau.<br><br>Mae cyllid wedi cael ei ddyrannu i brynu eiddo arall oddi ar y farchnad agored. Rydym yn dal i chwilio am eiddo addas sy'n cwrdd ag anghenion yr adran a rheoliadau Arolygiaeth Gofal Cymru. | |
| **Gofal Cymdeithasol a Llesiant** | Darparu cyfleoedd i ofalwyr ifanc fel y gallant gymryd rhan mewn sesiynau nofio am ddim yng nghanolfannau Môn Actif | Mae cymorth a seibiant ar gael i ofalwyr ifanc drwy Brosiect Gofalwyr Ifanc yr NCH ac mae sesiynau nofio am ddim ar gael i ofalwyr ifanc yng nghanolfannau Môn Actif. | Gwyrdd |
| **Gofal Cymdeithasol a Llesiant** | Gweithio gyda 250 o bobl ifanc i wella eu hiechyd a'u lles yn cynnwys cynnal gweithgaredd i gefnogi'r ymgyrch pwysau iach | Mae MônActif a PIPYN wedi cydweithio i sicrhau bod gan bob plentyn cyn oed ysgol bwysau iach. Mae 11 ysgol gynradd wedi ymrwymo i gymryd rhan yn holiadur y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion (SHRN). Mae'r ysgolion yn codi ymwybyddiaeth pan | Gwyrdd |

| Amcan Strategol | Yn 24/25 fe wnaethon ni ymrwymo i: | Diweddariad | Statws |
|---|---|---|---|
| | | fydd ymgynghoriadau'n cael eu cynnal fel y gall disgyblion ddarparu adborth.<br><br>Mae Chartwells, sy'n darparu prydau ysgol ar Ynys Môn ar hyn o bryd, yn ymweld ag ysgolion drwy gydol y flwyddyn i gael adborth gwerthfawr gan blant ar eu bwydlenni cinio. | |
| **Tai** | Sicrhau cyllid a chaniatâd cynllunio ar gyfer y datblygiad Gofal Ychwanegol yn Nhyddyn Mostyn, Porthaethwy | Mae cyllid wedi cael ei gadarnhau ar gyfer y datblygiad Gofal Ychwanegol newydd yn Nhyddyn Mostyn, Porthaethwy. Mae cais cynllunio llawn wedi cael ei gyflwyno, ac mae gwaith ar y gweill i sicrhau bod popeth yn ei le ar gyfer y gwaith adeiladu unwaith y bydd caniatâd cynllunio wedi cael ei roi. | Melyn |
| **Tai** | Cynyddu'r gyfradd ymateb i ymholiadau yn ystod y cyswllt cyntaf boed hynny drwy ein sianeli digidol, dros y ffôn neu wyneb yn wyneb | Lle bo modd rydym yn ymateb i bob ymholiad yn ystod y cyswllt cyntaf drwy Cyswllt Môn. Yn ystod 24/25 fe wnaeth Cyswllt Môn ddelio â 40% o'r ymholiadau.<br><br>Rydym yn dal i ddatblygu ein sianeli digidol, er mwyn galluogi trigolion a chwsmeriaid eraill i wneud ymholiadau a dod o hyd i ddatrysiadau eu hunain ar-lein. Cafodd nifer o ffurflenni newydd eu hychwanegu i wefan y cyngor a'r system CRM (Rheoli Cysylltiadau Cwsmer) yn ystod y flwyddyn.<br><br>Mae'r system ffôn newydd yn golygu ein bod yn gallu monitro galwadau sy'n dod drwy'r prif switsfwrdd yn well.<br><br>Caiff data systemau ffôn a digidol ei fonitro'n rheolaidd gan wasanaethau'r cyngor ac mae gwelliannau'n cael eu gwneud yn seiliedig ar y data hwnnw. | Gwyrdd |
| **Tai** | Moderneiddio a diweddaru'r system teleofal | Mae'r system teleofal wedi cael ei moderneiddio a'i huwchraddio'n llwyddiannus. Mae tenantiaid wedi nodi bod y newid hwn wedi bod yn gadarnhaol. | Gwyrdd |

| Amcan Strategol | Yn 24/25 fe wnaethon ni ymrwymo i: | Diweddariad | Statws |
|---|---|---|---|
| **Tai** | Gweithio tuag at ddiweddaru'r drysau mynediad mewn oddeutu 220 o dai a rennir yn barod ar gyfer y trosglwyddiad digidol | Mae'r trosglwyddiad digidol cenedlaethol wedi cael ei ohirio tan 2027, fodd bynnag mae'r cyngor wedi parhau i ddiweddaru drysau mynediad ei stoc tai a rennir. Mae pob drws wedi cael ei ddiweddaru ac maent yn cydymffurfio â'r trosglwyddiad digidol. | Gwyrdd |

## Amcan Llesiant 3 - Mae pobl Ynys Môn a'i chymunedau yn mwynhau, yn gwarchod ac yn gwella eu hamgylchedd adeiledig a naturiol ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol

| Amcan Strategol | Yn 24/25 fe wnaethon ni ymrwymo i: | Diweddariad | Statws |
|---|---|---|---|
| Tai | Paratoi Llwybr Targed Ynni ar gyfer stoc dai'r cyngor gan nodi sut y byddwn yn cwrdd â'r safonau gwres fforddiadwy a datgarboneiddio | Cwblhawyd Arolwg Cyflwr Stoc, sy'n rhan hanfodol o'r gwaith o baratoi'r llwybr targed ynni, yn ystod y flwyddyn. Roedd yr arolwg yn asesu perfformiad effeithlonrwydd ynni a'r gofynion buddsoddi cychwynnol i gwrdd â SATC 23 yn ystod y flwyddyn.<br><br>Ym mi Ionawr 2025 cafodd contract pum mlynedd ei roi ar waith i osod panel Solar PV a Storfeydd Batri ar draws ein stoc dai (lle bo hynny'n ymarferol). Derbyniodd y cyngor £500k yn ychwanegol gan Lywodraeth Cymru i gefnogi'r Rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio.<br><br>Bydd y Llwybr Targed Ynni yn nodi sut y byddwn yn cwrdd â'r safonau gwres fforddiadwy a datgarboneiddio. Bydd llwybr ar gyfer holl stoc dai'r cyngor yn 25/26. | Gwyrdd |
| **Tai** | Datblygu 30 o gartrefi newydd | Cwblhawyd:<br>• 10 tŷ newydd yn Llys Llwydiarth, Pentraeth<br>• 10 tŷ newydd ym Mharc y Coed, Llangefni<br>• 8 fflat yn Ffordd Garreglwyd, Caergybi<br>• 4 fflat ym Mhlas Alltran, Caergybi | Gwyrdd |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | Wrthi'n cael eu hadeiladu:<br>• Cae Braenar, Caergybi– 23 uned<br>• Bryn Estate, Llanfaethlu – 9 uned<br>• Safle hen Ysgol Niwbwrch – 14 uned | |
| **Tai** | Prynu 15 o gyn dai cyngor yn ôl | • 15 eiddo newydd wedi cael ei brynu yn ystod y flwyddyn<br>• 18 wedi cael eu hadnewyddu ac yn cael eu defnyddio fel stoc dai<br>• 23 wrthi'n cael eu diweddaru ddiwedd Mawrth 2025 | Gwyrdd |
| **Tai** | Hwyluso'r gwaith o adnewyddu 60 eiddo gwag | • 63 eiddo gwag hirdymor wedi dod yn ôl i ddefnydd yn ystod 2024/25 | Gwyrdd |
| **Tai** | Helpu 10 prynwr tro cyntaf i brynu eu cartref cyntaf | • Awdurdodi 13 o geisiadau gan brynwyr tro cyntaf | Gwyrdd |
| **Tai** | Cynnal asesiad o'r farchnad dai leol (LHMA) a phrosbectws tai blynyddol | Mae'r LHMA yn cyfuno gwahanol ddata i roi trosolwg cynhwysfawr o anghenion tai'r ynys. Mae'n amlinellu maint aelwydydd, y math o lety a geisir, lefelau incwm a data allweddol ynglŷn â'r farchnad dai, tai fforddiadwy ac eiddo gwag.<br><br>Mae'r wybodaeth yn hanfodol i lunio dogfennau eraill megis Cynllun Datblygu Lleol y cyngor a'i Strategaeth Dai. Mae hefyd yn helpu'r cyngor a'i bartneriaid i wneud penderfyniadau sy'n seiliedig ar wybodaeth ynglyn â'r ddarpariaeth tai ar gyfer y dyfodol. Mae hyn yn sicrhau bod cymysgedd briodol o dai ar gael.<br><br>Yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus, cafodd yr LHMA terfynol a'r prosbectws tai blynyddol ei anfon i Lywodraeth Cymru. | Gwyrdd |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Economi** | Darparu cymorth a chyngor i Menter Môn ar ddatblygu Hwb yng Nghaergybi | Mae'r cyngor yn parhau i weithio'n agos â Menter Môn i ddatblygu Hwb Hydrogen yng Nghaergybi. Mae hyn yn cynnwys chwilio am gyfleoedd i gynyddu ei gapasiti a manteision lleol. | Gwyrdd |
| **Economi** | Dylanwadu ar Lywodraeth y DU, Great British Nuclear, Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid allweddol eraill a chydweithio â hwy ar ddatblygiadau ynni ar raddfa fawr | Mae'r cyngor yn dal i ymgysylltu â Llywodraeth y DU a Great British Nuclear i sicrhau bod unrhyw brosiect niwclear yn Wylfa yn y dyfodol yn sicrhau cymaint o fanteision â phosib i Ynys Môn a chyn lleied â phosib o effaith ar yr ardal leol.<br><br>Mae'r cyngor yn dal i weithio â'r ddwy lywodraeth a datblygwyr ynni i hyrwyddo'r cyfleoedd ar Ynys Môn a sicrhau bod cymunedau lleol yn elwa o brosiectau ynni mawr. Mae'r cyngor hefyd yn sicrhau bod unrhyw effeithiau negyddol a risgiau'n cael eu hamlygu yn gysylltiedig â phob datblygiad a chyfathrebu'r rhain â Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru.<br><br>Bu ymgysylltu yn ystod y cyfnod hwn drwy'r broses gynllunio statudol, a chyfeiriwyd yn benodol at y safleoedd solar arfaethedig yn Alaw Môn a Maen Hir. Cyflwynodd y Cyngor ei Adroddiad Effaith Lleol yn gysylltiedig ag Alaw Môn ym mis Hydref 2024. | Gwyrdd |
| **Economi** | Gweithio â Menter Môn i fuddsoddi'r 600k o gyllid grant gan Lywodraeth Cymru drwy'r Gronfa'r Economi Gylchol i sefydlu lleoliadau 'trwsio' ar yr ynys | Drwy'r prosiect "Tyfu a Thrwsio" gyda Menter Môn, mae mentrau ailddefnyddio a thrwsio wedi cynyddu, ac mae gweithdai cymunedol a phartneriaethau newydd wedi rhoi ail wynt iddynt.<br><br>Mae meter 'Ffiws' Menter Môn yn 'ofod gwneud' sy'n darparu offer, cyfarpar a thechnoleg mewn gwahanol leoliadau ledled Gwynedd ac Ynys Môn. Cynhaliodd Menter Môn bron i 70 o weithdai 'Ffiws' yn ystod 24/25 ac fe wnaeth dros 400 o bobl gymryd rhan. | Gwyrdd |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | Mae treial wedi cychwyn gyda Hosbis Dewi Sant i ailddefnyddio eitemau addas o Benhesgyn (canolfan ailgylchu) a'u gwerthu yn eu siopau elusen. | |
| **Economi** | Sicrhau caniatâd cynllunio ar gyfer yr unedau busnes yn Amlwch a gweithio â phartneriaid i ddod o hyd i ragor o gyfleoedd ariannu cyfalaf | Mae caniatâd cynllunio wedi cael ei roi ar gyfer unedau busnes newydd yn Amlwch.<br><br>Cynhaliwyd ymgynghoriadau cyhoeddus sylweddol yn ogystal sy'n dangos ein bod wedi ymgysylltu â dros 3000 o bobl leol a busnesau. | Gwyrdd |
| **Economi** | Gyrru Strategaeth Canol Trefi Ynys Môn yn ei blaen drwy<br>• Ymgysylltu â rhanddeiliaid ar Gynlluniau Canol Trefi unigol<br>• Darparu cyllid Trawsnewid Trefi a Chreu Lleoedd i 30 o fusnesau; a<br>• Sicrhau cyllid i fwy na 10 cynllun gwella eiddo | Ar ôl ymgysylltu a chymunedau a busnesau, derbyniwyd grant refeniw gwerth £100,000 ar gyfer Canol Trefi i ariannu'r gwaith o baratoi Cynlluniau Creu Lleoedd yng Nghaergybi ac Amlwch.<br><br>Mae prosiectau adnewyddu ar y gweill yng Nghanolfan Glanhwfa ac maent wedi cael eu cwblhau yn y Market Inn, Llangefni, drwy'r grant Canol Trefi.<br><br>Mae grantiau wedi cael eu dyrannu i wella eiddo gwag cymwys, a lansiwyd peilot paentio blaen eiddo. Mae arolygon a chynlluniau adnewyddu wedi cael eu comisiynu ar gyfer safleoedd wedi'u targedu yng Nghaergybi, Llangefni ac Amlwch. | Gwyrdd |
| **Economi** | Parhau i weithredu Cynllun Adfywio Economi Gogledd Ynys Môn drwy sicrhau cyllid allanol gan yr Awdurdod Datgomisiynu Niwclear (NDA) | Mae'r Cyngor wedi sicrhau cyllid newydd i gefnogi'r gwaith adfywio yng Ngogledd yr Ynys, yn cynnwys £50k ar gyfer Cynllun Creu Lleoedd yn Amlwch a chyllid pellach ar gyfer datblygu'r Derfynell Forol.<br><br>Mae nifer o arolygon ac astudiaethau wedi cael eu cynnal ar eiddo yn Amlwch ac mae nifer o brosiectau gwella wedi gael eu hariannu drwy brosiect 'Lle Da' y gronfa SPF.<br><br>Cyflwynwyd cais am gyllid 3 blynedd gan yr NDA i gefnogi gweithgareddau adfywio. | Gwyrdd |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Economi** | Gweithio gyda Stena, Llywodraeth y DU a Bwrdd Uchelgais Gogledd Cymru i ddatblygu Porthladd Rhydd Ynys Môn a sicrhau cyfleodd buddsoddi ar gyfer Porthladd Caergybi | Mae'r gwaith i sefydlu Porthladd Rhydd Ynys Môn yn mynd rhagddo ac rydym wedi cyrraedd cerrig milltir allweddol, yn cynnwys dynodiad rhannol fel safle treth.<br><br>Mae cynnydd yn dal i gael ei wneud gyda phrosiect Porth Caergybi o fewn y Fargen Twf. Mae Stena Line yn dal i ddatblygu'r cynllun hwn gyda chyfraniad gan y Cyngor. | Gwyrdd |
| **Economi** | Cyflawni rhaglen Cronfa Ffyniant Bro Caergybi | Mae cynnydd sylweddol yn dal i gael ei wneud wrth gyflawni'r Rhaglen Ffyniant Bro yng Nghaergybi. Gellir gweld newid trawsnewidiol a gweledol ar y stryd fawr erbyn hyn wrth i nifer o brosiectau gael eu gwireddu. Mae'r rhain yn cynnwys y gwaith yng Nghanolfan Ucheldre, hen safle HSBC a'r Adeiladau Canolog, yr estyniad i ganolfan yr Empire a nifer o adeiladau a oedd mewn cyflwr gwael ar y Stryd Fawr. Mae'r gwaith yn Eglwys Cybi Sant ac Eglwys y Bedd yn mynd rhagddo ond cafwyd oedi oherwydd ymchwiliadau archeolegol ar y safle.<br><br>Mae £15m wedi cael ei hawlio hyd yma gan Lywodraeth y DU wrth i'r rhaglen nesáu at ei 12 mis olaf. | Gwyrdd |
| **Economi** | Sefydlu 15 prosiect ar Ynys Môn a 10 prosiect rhanbarthol gydag arian o Gronfa Ffyniant Bro Llywodraeth y DU (UKSPF) | Mae'r Cyngor wedi cyflawni 25 o brosiectau lleol a rhanbarthol o dan y Gronfa Ffyniant Bro, gan gefnogi datblygiadau cymunedol, sgiliau a chyflogaeth ledled Ynys Môn.<br><br>Cafodd cronfa pontio o £5 miliwn ei sicrhau ar gyfer 2025 i helpu i ymestyn prosiectau allweddol am flwyddyn arall, tra bo'r cynllun Lluosi wedi derbyn nawdd ychwanegol yn sgil y tanwariant rhanbarthol, er mwyn rhoi hwb i rifedd oedolion a chyfleoedd dysgu. | Gwyrdd |
| **Economi** | Ymgysylltu â busnesau lleol a mewnfuddsoddiadau posib i gefnogi cyflogaeth a ffyniant | Mae'r Cyngor yn dal i weithio â busnesau lleol a buddsoddwyr newydd i greu swyddi a denu buddsoddiadau hirdymor i Ynys Môn. Mae creu 'Porthladd Rhydd Ynys Môn Cyf' yn garreg filltir sylweddol, a bydd ei Fwrdd newydd yn arwain datblygiadau yn y dyfodol a sicrhau bod manteision economaidd yn cael eu gwireddu'n lleol. | Gwyrdd |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Economi** | Cwblhau'r Cynllun Rheoli Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (2023-2028) | Mae wedi bod yn flwyddyn brysur i'r Cyngor o dan y Cynllun Rheoli AHNE, yn cynnwys adfer cynefinoedd, mentrau awyr dywyll a chael gwared ar rywogaethau ymledol. Mae cyllid hefyd wedi cael ei ddefnyddio i wella mynediad y cyhoedd at natur mewn prif leoliadau fel Nant y Pandy, Llyn Maelog a Choed y Môr, ac mae llwybrau cylchol newydd wedi cael eu hyrwyddo gydag ymwelwyr a thrigolion fel ei gilydd. | Gwyrdd |
| **Economi** | Croesawu 52 o longau mordeithio i'r ynys | Mae'r Cyngor yn dal i groesawu llongau mordeithio i Ynys Môn, ac mae'n gweithio â Cruise Wales, cynghorau tref a busnesau lleol i sicrhau bod ymwelwyr yn mwynhau eu hamser ar yr ynys. Mae'r teithiau hunan dywys newydd o amgylch y dref a'r gwelliannau i brofiad y cwsmer mewn atyniadau fel Oriel Ynys Môn yn helpu i ledaenu'r manteision economaidd ar hyd a lled cymunedau lleol. | Gwyrdd |
| **Economi** | Cydweithio â Llywodraeth Cymru i wella'r gweithgareddau sydd ar gael i ymwelwyr | Mae'r Cyngor wedi gweithio'n agos â Llywodraeth Cymru i wella profiad ymwelwyr ledled Ynys Môn, gan fuddsoddi'r cymorth a dderbyniodd drwy'r Gronfa Ffyniant Bro i wella llwybrau mynediad, mannau Gwyrdd a gwarchodaeth natur. | Gwyrdd |
| **Economi** | Datblygu'r Rhaglen Tiroedd Llwyd a'i rhoi ar waith i ailddatblygu safleoedd diwydiannol hanesyddol yn cynnwys; safle Alwminiwm Môn, Rhosgoch, Octel (Amlwch) a Peboc, Llangefni | Mae'r Cyngor yn gweithio â Llywodraeth Cymru a phartneriaid allweddol i ailddatblygu safleoedd diwydiannol hanesyddol megis Peboc yn Llangefni, Alwminiwm Môn a Rhosgoch. Mae'r safleoedd tir llwyd yma'n cynnig cyfleoedd sylweddol o ran cyflogaeth a buddsoddi fel rhan o'r rhaglen Porthladd Rhydd ehangach. | Melyn |
| **Newid Hinsawdd** | Adolygu'r Cynllun Tuag at Sero Net 2022-2025 a'i roi ar waith; cyhoeddi dashfwrdd i gasglu data ynglŷn ag allyriadau carbon ein hasedau mewnol a chyflwyno adroddiad i Lywodraeth Cymru ar allyriadau carbon erbyn mis Medi 2024 | Mae gwaith tuag at sero net y Cyngor yn unol â'r amserlen. Mae'r Dashfwrdd Sero Net PowerBI bellach yn fyw ar y system MônITor ar gyfer staff a chynghorwyr.<br><br>Mae'r Cyngor wedi cyflwyno ei adroddiad blynyddol ar allyriadau carbon i Lywodraeth Cymru. | Gwyrdd |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Newid Hinsawdd** | Gyrru'r Cynllun Trawsnewid Fflyd yn ei flaen drwy ychwanegu 13 o gerbydau carbon isel i'r fflyd (yn ddibynnol ar gyfalaf a chyllid grant) | Mae'r Cyngor yn dal i foderneiddio ei fflyd cerbydau, ac mae ganddo 31 o gerbydau trydan ar hyn o bryd. Mae arbedion caffael wedi cael eu sicrhau drwy gydweithio â Llywodraeth Cymru, ac mae hyn wedi helpu i leihau allyriadau a chostau rhedeg ar draws y gwasanaethau. | Gwyrdd |
| **Newid Hinsawdd** | Mabwysiadu'r Cynllun Cyflawni ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol CDLl) newydd – i'w gyflwyno i'r Cyngor llawn ac yna i Lywodraeth Cymru i'w gytuno | Mae Cytundeb Cyflawni diwygiedig y Cyngor ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol wedi cael ei gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru. Mae gwaith ar y gweill i gryfhau'r sylfaen dystiolaeth i sicrhau bod y polisi cynllunio yn gadarn ac yn cyd-fynd ag anghenion lleol. | Gwyrdd |
| **Newid Hinsawdd** | Gosod systemau gwresogi carbon isel yn naw o adeiladau'r cyngor | Mae'r Cyngor yn buddsoddi mewn systemau gwresogi carbon isel mewn naw adeilad fel rhan o' i raglen Sero Net. Mae diweddariadau a phrofion technegol ar waith, ac mae £781,000 o gyllid gan Lywodraeth Cymru wedi cael ei sicrhau i ehangu'r isadeiledd solar a gwella effeithlonrwydd ynni. | Gwyrdd |
| **Newid Hinsawdd** | Gweithio tuag at gyflawni targed ailgylchu Llywodraeth Cymru sef ailgylchu 70% o wastraff o gartrefi ac adeiladau'r cyngor | Cyfradd ailgylchu'r Cyngor ar gyfer y flwyddyn yw 66%. Mae gwaith ar y gweill i gyrraedd targed ailgylchu Llywodraeth Cymru sef ailgylchu 70%.<br><br>Mae biniau ailgylchu ar gael ym mhob un o adeiladu'r Cyngor, yn cynnwys ysgolion. Mae'r cyngor wedi ailgylchu 47% ar gyfartaledd yn ystod 2024/25. Ar hyn o bryd mae hyn yn unol â'r disgwyliadau a bydd y gyfradd yn gwella wrth i fwy o bobl eu defnyddio. | Coch |
| **Newid Hinsawdd** | Gweithio gyda phartneriaid i yrru'r amcanion allweddol yn y Cynllun Strategol Adnoddau ac Ailgylchu yn eu blaen er mwyn gwella'r gwasanaeth casglu gwastraff ac ailgylchu | Mae'r Cyngor yn parhau i gyflawni ei Gynllun Strategol Ailgylchu, ac mae'n parhau i ganolbwyntio ar wella cyfraddau ailgylchu a lleihau gwastraff gweddilliol. Mae staff ychwanegol wedi cael eu penodi i gefnogi'r gwaith hwn ac mae opsiynau ar gyfer gwella'r gwasanaeth casglu yn cael eu datblygu er mwyn eu hystyried yn y dyfodol. | Melyn |
| **Newid Hinsawdd** | Sicrhau bod pwyllgorau'n cael cyfle i ystyried newid hinsawdd a bioamrywiaeth | Mae'r Cyngor yn cryfhau ei drefniadau llywodraethiant i sicrhau bod pob penderfyniad yn ystyried newid hinsawdd a bioamrywiaeth. | Melyn |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | wrth wneud penderfyniadau drwy ddiweddaru templedi adroddiadau | Mae'r templed ymrwymiadau Sgriwtini diwygiedig bellach yn cynnwys adran benodol ar Sero Net ac effeithiau amgylcheddol. | |
| **Newid Hinsawdd** | Rhoi cynlluniau rheoli llifogydd ar waith ledled yr ynys (yn ddibynnol ar sicrhau cyllid gan Lywodraeth Cymru):<br>• rhoi chwe chynllun bach ar waith<br>• datblygu achos busnes ar gyfer pedwar cynllun ar raddfa fawr<br>• datblygu achosion busnes ar gyfer pedwar cynllun ar raddfa fawr | Mae'r Cyngor yn dal i wneud cynnydd gyda'i brosiectau rheoli risg llifogydd ledled yr ynys. Mae gwaith ar y gweill i ddylunio a pharatoi achosion busnes ar gyfer cynlluniau mawr a bach, yn cynnwys Llanfairpwll, Porthaethwy, Llangefni, Benllech, Amlwch a Chaergybi, yn amodol ar dderbyn cyllid gan Lywodraeth Cymru. | Melyn |
| **Newid Hinsawdd** | Mabwysiadu a chyhoeddi strategaeth leol ar gyfer rheoli'r perygl o lifogydd | Mae'r Cyngor wedi cymeradwyo Cynllun Strategol Rheoli Risg Llifogydd newydd yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus i gasglu adborth gan drigolion a phartneriaid. | Gwyrdd |
| **Newid Hinsawdd** | Rhoi cynlluniau teithio lleol ar waith yn Amlwch ac Ynys Cybi, yn ogystal â gwella'r seilwaith rhwng Malltraeth a Llanfairpwll | Mae'r Cyngor yn parhau i wella llwybrau cerdded a seiclo ledled Ynys Môn. Mae'r gwaith rhwng Pont Marcwis a Malltraeth wedi cychwyn, ac mae gwelliannau ar y gweill i gyfeiriad Niwbwrch, Amlwch ac Ynys Cybi mewn partneriaeth â Trafnidiaeth Cymru a Llywodraeth Cymru. | Melyn |
| **Newid Hinsawdd** | Penodi cyflenwr pwyntiau gwefru cerbydau trydan i osod pwyntiau gwefru ledled yr ynys (yn ddibynnol ar sicrhau cyllid grant) | Mae'r Cyngor wedi sicrhau grant gwerth £500,000 i osod 23 o bwyntiau gwefru cerbydau trydan ledled yr ynys. Mae'r gwaith paratoi safleoedd yn mynd rhagddo'n dda, a bydd nifer o'r pwyntiau gwefru'n cael eu cwblhau yn hwyrach yn 2025 drwy Fframwaith Seilwaith Cerbydau Trydan newydd Llywodraeth Cymru. | Melyn |